

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Buddsoddi yn nyfodol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2012 – 2013

Gorffennaf 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk
Ffôn: 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Buddsoddi yn nyfodol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2012 – 2013

Gorffennaf 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynnwys

Cyflwyniad **1**

Rhagair gan y Llywydd 2

Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad 4

Comisiynwyr 6

Y Dirprwy Lywydd 7

Cynghorwyr annibynnol 8

Adolygiad o'r flwyddyn **11**

Strategaeth ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol 13

Amcanion Strategol y Comisiwn ar gyfer y y Pedwerydd Cynulliad 14

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf *14*

Ymgysylltu â phobl Cymru *20*

Addysgu pobl ifanc Cymru *22*

Hyrwyddo Cymru *27*

Defnyddio adnoddau'n ddoeth 29

Edrych i'r dyfodol 33

Yr adroddiad ar gynaliadwyedd **36**

Cyfrifon Adnoddau 2012-13 ..... **43**

Sylwadau rheoli 45

Yr Adroddiad Taliadau 57

Datganiad Llywodraethu 2012-13 67

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 78

Datganiad o Gyfrifon 80

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau 87

Cyflwyniad

Rhagair gan y Llywydd

Mae'n bleser gennyf ysgrifennu'r rhagair hwn i adroddiad blynyddol sy'n edrych yn ôl dros flwyddyn hanesyddol o gyflawniadau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Gomisiynwyr y Cynulliad, Aelodau, staff cymorth yr Aelodau a staff y Cynulliad am eu holl waith caled ac i bawb ledled Cymru sydd wedi fy nghroesawu i'w cymuned, wedi ymweld â'r Cynulliad neu wedi cysylltu'n uniongyrchol â ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Hefyd, hoffwn gymryd y cyfle hwn i roi teyrnged i Tim Knighton a'r Athro Robert Pickard am eu cyngor amhrisiadwy fel cynghorwyr annibynnol i Gomisiwn y Cynulliad. Maent bellach wedi ymadael ond mae Helena Feltham, Eric Gregory a Keith Baldwin wedi cymryd eu lle'n fedrus.

Eleni, cafodd Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 Gydsyniad Brenhinol, y ddeddf gyntaf i gael ei gwneud yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd. Rwy'n falch iawn mai Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol a gyflwynodd y ddeddf hon oherwydd roeddem am gydnabod yn ffurfiol yr Iaith Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol trafodion y Cynulliad.

Ond fel yr amlinellais yn fy nghyflwyniad i Gomisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru - Comisiwn Silk - ni fu'r daith yn un rhwydd.

Cafwyd nifer o enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n dangos sut y mae ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad - y meysydd polisi y mae gan y Cynulliad y pŵer i ddeddfu ynddynt - yn aneglur ac yn ansicr.

Byddaf yn parhau i wthio'r mater hwn i frig yr agenda yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, gan y credaf fod mynd i'r afael â hyn yn hanfodol i sicrhau bod y Cynulliad yn datblygu i fod yn gorff deddfu aeddfed, sy'n bodloni anghenion a dyheadau pobl Cymru.

Rwyf hefyd am fynd i'r afael â'r mater o 'ddiffyg democrataidd' sy'n wynebu Cymru o ran cyfleu gwaith y Cynulliad i bobl Cymru. Mae'r Cynulliad yn gweithio'n galed i gyrraedd pob cornel o'r wlad ond caiff ei waith ei atal gan garfannau mawr o'r boblogaeth sy'n cael mynediad at eu newyddion drwy gyfryngau'r DU nad ydynt prin yn cydnabod y cysyniad o ddatganoli. Cynhelir cyfres o sesiynau yn y Cynulliad yn ddiweddarach eleni i edrych ar sut y gallwn oresgyn y rhwystr hwn.

Byddaf hefyd yn sicrhau bod y mater o ddiffyg cynrychiolaeth menywod mewn swyddi cyhoeddus yn parhau i gael ei ymchwilio yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad wedi gweithio'n galed ar y mater hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae 51 y cant o'r boblogaeth yn fenywod ond ni chaiff hynny ei adlewyrchu pan edrychwch ar nifer y menywod sydd mewn swyddi cyhoeddus yng Nghymru. Cefais orchymyn gan gynhadledd genedlaethol, a gynhaliwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2012, i ysgrifennu at arweinwyr y pedair plaid i'w hannog i atal y dirywiad yn nifer y menywod yn y Cynulliad.

Rydym wedi cael ymatebion cadarnhaol gan arweinwyr y pleidiau ond bydd y Cynulliad yn parhau i weithio ar y mater ehangach o rwystrau i fenywod drwy geisio annog rhwydweithiau mentora a mwy o fodelau rôl.

Ond nid ar rwystrau i fenywod yn unig y byddwn yn canolbwyntio. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod bydd y Cynulliad yn symud ymlaen o ran ymgysylltu â phobl ifanc Cymru. Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall ac yn chwarae rhan weithredol yng ngwaith y Cynulliad yn allweddol os yw'r Comisiwn am lwyddo i gyflawni ei nod o ymgysylltu â phobl Cymru. Nod y Comisiwn yw cynyddu'r cyfleoedd sydd gan ein dinasyddion iau i lywio busnes y Cynulliad ac i gymryd rhan ynddo.

Yn y pen draw, nod y Cynulliad yw deddfu a chraffu ar Lywodraeth Cymru. Eleni, cyflwynais ragor o newidiadau i'r ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes. Yr ysgogiad y tu ôl i'r newidiadau hyn fu ymgyrch i wneud gwaith craffu yn fwy effeithiol ac i greu rhagor o gyfleoedd i Aelodau godi materion sy'n berthnasol i'r etholwyr.

Mae llawer o gyrff deddfwriaethol, ar lefel ranbarthol a gwladwriaethol o amgylch y byd, bellach yn edrych ar y Cynulliad Cenedlaethol i weld sut y mae'n craffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau, yn ogystal â sut y mae'n cyfathrebu â'r cyhoedd ac yn cefnogi Aelodau'r Cynulliad.

Mae'n rhaid i ni adeiladu ar y llwyddiant hwn er mwyn sicrhau ein bod yn dod hyd yn oed yn well am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, craffu ar ddeddfwriaeth a gwasanaethu pobl Cymru.

Rosemary Butler AC
Y Llywydd

Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Ddwy flynedd yn ôl, o safbwynt cyfansoddiadol cryfach, yn dilyn refferendwm 2011, rhoddodd y Comisiwn y cyfrifoldeb i'r Cynulliad am sicrhau y gallai ddarparu'r cymorth seneddol o'r radd flaenaf i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Roedd y Comisiwn hefyd am greu amgylchedd a oedd yn annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad, ac a oedd yn ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw. Roedd am sicrhau bod safiad Cymru'n cael ei godi o fewn y DU ac yn rhyngwladol. Yn olaf, roedd am i'r dyheadau heriol hyn gael eu cyflawni mewn ffordd a oedd yn dangos arbedion effeithlonrwydd ac yn cynnig gwerth am arian amlwg i bobl Cymru.

Ar ddiwedd ail flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad, mae'n bleser gen i adrodd bod y Cynulliad, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi gwneud rhagor o gynnydd sylweddol o ran cyflawni amcanion strategol y Comisiwn, ac rwy'n falch o hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyflawniadau'r Comisiwn yn erbyn y targedau a amlinellwyd yn Strategaeth Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2012-13. Y nod yw caniatáu i'r darllenydd werthuso sut mae'r Comisiwn wedi perfformio yn erbyn ei nodau am y flwyddyn.

Mae rhagor o gynlluniau uchelgeisiol yr ydym wedi ymrwymo i'w cyflawni erbyn diwedd y Cynulliad hwn yn 2016. Maent yn amrywio o roi strategaeth TGCh newydd ar waith i gynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl ifanc i ryngweithio a dylanwadu ar waith y Cynulliad, a gwneud y Senedd a'r Pierhead yn lleoliadau adnabyddus am weithgarwch democrataidd a dinesig.

Mae safon uchel gwaith staff y Cynulliad yn amlwg ar draws holl feysydd y sefydliad. Bydd cynnwys yn glir ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi yn gymorth i sicrhau ein bod yn cyrraedd disgwyliadau uchel Aelodau'r Cynulliad, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae ein Cynllun hefyd yn nodi sut yr ydym ni fel staff yn cyflawni'n dyletswyddau o gefnogi deddfwrfa Cymru. Mae'n nodi addewid i ystyried yn llawn ein cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, tra'i fod yn cyflawni pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn gyda chyflymder, arbenigedd proffesiynol a theimlad cryf o wasanaeth. Mae ein hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd yn parhau, fel y mae ein balchder mewn gweithio i sefydliad neilltuol.

Hoffwn orffen drwy ddweud pa mor hynod falch yr wyf o gyflawniadau'r staff sy'n gweithio i'r Comisiwn, ac rwy'n falch bod y cyflawniadau wedi'u cydnabod drwy'r nifer o wobrwyon allanol a enillwyd gan y Cynulliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gallwch ddarllen am lawer ohonynt yn yr adroddiad blynyddol hwn.

Rwy'n ei hystyried yn fraint i weithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac edrychaf ymlaen at lywio fy nhîm i gyflawni rhagor o gynnydd sylweddol yn ystod y tair blynedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Comisiynwyr

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Ei rôl yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad, un wedi ei enwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.

Rosemary Butler AC (Llafur Cymru)
Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyfathrebu a datblygiad proffesiynol yr Aelodau a'u staff.

Angela Burns AC (Ceidwadwyr Cymru)
Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Mae Angela hefyd yn gyfrifol am wella gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad, a rôl y Comisiwn fel cyflogwr staff y Cynulliad.

Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
Comisiynydd â chyfrifoldeb am TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd.

Sandy Mewies AC (Llafur Cymru)
Comisiynydd â chyfrifoldeb am wasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, siop y Cynulliad ac arlwyo a diogelwch yn ogystal â chyfleusterau. Mae hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau cydraddoldeb statudol y Comisiwn.

Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru)
Comisiynydd yn gyfrifol am swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg, y gwasanaethau cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

Y Dirprwy Lywydd

David Melding AC (Ceidwadwyr Cymreig)
Mae Rheol Sefydlog 6.18 yn nodi: 'Yn absenoldeb y Llywydd neu yn unol â chais ganddo, rhaid i'r Dirprwy arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf.'

Mae'r Dirprwy Lywydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau yn ei rinwedd ei hun, yn ogystal ag ar ran y Llywydd, er mwyn rhoi hwb i broffil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynghorwyr annibynnol

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi penodi cynghorwyr annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith.

Mae'r cynghorwyr yn ymwneud â gwaith monitro perfformiad a chadw golwg feirniadol ar ddulliau rheoli ariannol a gweithdrefnau rheoli risg y Cynulliad fel aelodau o Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn.

Mair Barnes
Mae Mair Barnes y cynghori ac yn mentora nifer o gyfarwyddwyr Byrddau ar draws amrywiaeth o sectorau yn ychwanegol at fod yn gyfarwyddwr anweithredol busnes byd-eang. Mae'n gyn Gadeirydd Vantios ccc a Rheolwr Gyfarwyddwr Woolworths ccc. Daliodd swyddi cyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.

Richard Calvert
Ailymunodd Richard Calvert â'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) ym mis Awst 2009 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol ar ôl dwy flynedd a hanner gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), lle daliodd swydd Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau. Swydd olaf Richard yn yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, cyn symud i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, oedd Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Mae Richard yn Gyfrifydd Rheoli cymwys ac mae wedi dal nifer o swyddi anweithredol yn y sector cyhoeddus.

Helena Feltham (ers 1 Tachwedd 2012)
Mae Helena wedi cael gyrfa hir ym maes Manwerthu ac arwain Adnoddau Dynol. Mae wedi bod yn aelod o fwrdd fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Marks & Spencer a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol Woolworths De Affrica, cyn dychwelyd i'r DU yn 2005 pan ddaeth yn bartner yn Odgers Ray and Bernedtson yn gwneud ymchwil weithredol. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Jack Wills Cyf. Mae hi hefyd wedi bod yn Gyfarwyddwr anweithredol ar Ymddiriedolaeth GIG, ac ar hyn o bryd mae hi'n Ynad Heddwch.

Eric Gregory (ers 1 Tachwedd 2012)
Ar hyn o bryd, mae Eric yn Gyfarwyddwr anweithredol gyda Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau'r Swyddfa Gartref a Rhaglen Trawsnewid Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet. Mae newydd orffen tair blynedd o fod yn Gyfarwyddwr anweithredol i Wasanaeth Erlyn y Goron Llundain, ac yn gadeirydd ar y Pwyllgor Newid, Risg ac Archwilio.

Bu'n gweithio i Bartneriaeth John Lewis am 25 mlynedd tan 2009, lle roedd yn Gyfarwyddwr Bwrdd am saith mlynedd, gan ddal y tair prif swydd Cyfarwyddwr TG cyn dod yn Gyfarwyddwr Personél. Cyn hynny, bu'n gyfarwyddwr anweithredol i Wasanaeth Erlyn y Goron yn Llundain ac yn aelod o'i Fwrdd TGCh. Mae hefyd wedi dal swydd Cadeirydd Bwrdd TG Fforwm Cynnyrch Defnyddwyr, ac yn aelod o Fwrdd Busnesau e-sgiliau am chwe mlynedd.

Keith Baldwin (ers 1 Tachwedd 2012)
Treuliodd Keith 20 mlynedd fel partner yn PricewaterhouseCoopers (PWC). Ar wahân i'w gyfrifoldebau am gleientiaid yn ystod y cyfnod hwn, daliodd hefyd nifer o swyddi rheoli gan gynnwys Dirprwy Bartner yn gyfrifol am Ymgynghori â'r Llywodraeth a Phartner yn gyfrifol am y swyddogaethau Rheoli Risg ac Ansawdd o fewn Busnes Cynghori PWC.

Ers gadael PWC mae wedi cyflawni nifer o swyddi anweithredol ac ymgynghorol, gan gynnwys Aelod Bwrdd anweithredol ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio yn CVQO Cyf. (sy'n helpu pobl ifanc i gael cymwysterau galwedigaethol) ac mae'n Aelod o'r Cyngor ac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Chyflogau yn Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin, ers 2010. Bu'n Gyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (y Coleg Barnwrol erbyn hyn) rhwng 2007 a 2011.

Tim Knighton (tan 4 Tachwedd 2012)
Mae Tim Knighton ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Cyflawni Atebion Busnes yn Nhŷ'r Cwmnïau. Cyn ymuno â Thŷ'r Cwmnïau yn 2007 fel Cyfarwyddwr Cyllid, treuliodd Tim ddeng mlynedd gyda Tesco ccc mewn amrywiaeth o swyddi cyllidol. Yn ddiweddarach bu'n gyfrifol am eu gweithrediad cydwasanaethau yn y DU. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Gweithredol gyda Goldman Sachs yn eu His-adran Cyfalaf drwy'r Marchnadoedd.

Yr Athro Robert Pickard (tan 4 Tachwedd 2012)
Daliodd yr Athro Robert Pickard nifer fawr o swyddi cyhoeddus, llawer ym maes iechyd a lles. Ymhlith ei benodiadau presennol mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol Meddygaeth. Mae'n wyddonydd o ran ei gefndir.

Adolygiad o'r flwyddyn

Mae Cymru'n cael oddeutu £15 biliwn bob blwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i bobl Cymru. 'Bloc Cymru', fel y'i gelwir, sy'n ariannu'n hysgolion, ein hysbytai, ein seilwaith trafnidiaeth - pob agwedd ar ein bywydau y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt. Felly polisïau'r Llywodraeth a etholwyd ar y pryd sy'n penderfynu sut y caiff yr arian hwn ei wario.

Rhoddir cyfran fach o'r arian hwnnw (0.3%) ar un ochr i ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr arian hwn sy'n caniatáu i'r Cynulliad gyflawni'i rôl o gynrychioli etholwyr Cymru (drwy ethol 60 o Aelodau'r Cynulliad), deddfu ar gyfer Cymru, a chraffu ar effeithiolrwydd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd gan Gomisiwn y Cynulliad gyfrifoldeb am gyllideb o £47 miliwn. O'r cyfanswm hwn, gwariwyd £13.5 miliwn ar sicrhau bod gan ein cynrychiolwyr etholedig swyddfeydd o fewn eu rhanbarthau a'u hetholaethau, yn ogystal ag ym Mae Caerdydd, ynghyd â phobl o'r safon angenrheidiol i staffio'r swyddfeydd hynny.

Caiff gweddill y gyllideb ei gwario ar sicrhau bod gan ein Haelodau Cynulliad y lefel gywir o gefnogaeth i gyflawni'u gwaith yn effeithiol. Mae hyn yn amrywio o redeg y Senedd a Thŷ Hywel yn esmwyth i sicrhau bod gan staff y Cynulliad y lefelau angenrheidiol o arbenigedd cyfreithiol a chyfansoddiadol i ddarparu gwasanaeth seneddol rhagorol i Aelodau. Caiff cyfran o'r arian hefyd ei wario ar raglen ymgysylltu â'r cyhoedd strategol a gynlluniwyd i annog pobl i fod yn gyfranogwyr gweithgar yn nemocratiaeth Cymru.

Strategaeth ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol

Cryfhaodd y sefyllfa gyfansoddiadol newydd a roddwyd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn y refferendwm yn 2011, yr angen i ddeddfwrfa Cymru gael cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf wrth gyflawni'i dyletswyddau. O ganlyniad i hynny, mae Comisiwn y Cynulliad wedi datblygu strategaeth fuddsoddi sy'n cael ei chynnwys mewn cynllun cyllideb tair blynedd. Mae'n darparu nid yn unig gwerth am arian, ond mae hefyd yn cyflawni'n cyfrifoldebau cyfansoddiadol a chorfforaethol o sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad wedi'u paratoi'n iawn i wneud eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli ar ran eu hetholwyr am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Bydd ein cyllideb yn ein cadw mewn sefyllfa i allu defnyddio gwasanaethau'n iawn ac i fuddsoddi mewn gwaith datblygu angenrheidiol. Yn awr, mae'n rhaid inni ddangos bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar Aelodau.

Rhan bwysig o ddefnyddio ein hadnoddau'n ddoeth yw sicrhau bod pawb yn cyd-dynnu er mwyn cyflawni ein strategaeth. Ystyr cyd-dynnu'n effeithiol yw cydweithio, arwain mewn ffordd bendant, cyfathrebu rhagorol â'n gilydd, blaenoriaethu ymdrechion yn effeithiol a bod â ffocws clir. Eleni cafodd cynllun corfforaethol newydd ei baratoi sy'n nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi, sef:

– Rhoi Strategaeth TGCh ar waith ar gyfer y dyfodol i fynd â'r Cynulliad i 2014 a thu hwnt.

– Parhau â rhaglen o ragoriaeth ac integreiddio gwasanaethau i gefnogi Busnes y Cynulliad

– Sicrhau bod y Cynulliad yn parhau â'i ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog gwell.

– Parhau i gynyddu ymgysylltiad pobl Cymru â gwaith y Cynulliad, yn enwedig pobl ifanc.

– Gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad, gan gynnwys adeilad eiconig y Pierhead a'r Senedd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn brif leoliadau ar gyfer bywyd cyhoeddus Cymru.

Mae ein cyllideb yn ddigonol inni gyflawni ein cynlluniau, ond serch hynny, bydd yn rhaid inni wneud dewisiadau clir ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud a'r hyn na allwn ei wneud gyda'r adnoddau sydd ar gael. Yn sgîl hynny, bydd yn rhaid rhoi rhai pethau o'r neilltu er mwyn sicrhau bod y meysydd blaenoriaeth a amlinellir yn y strategaeth hon yn cael eu cyflawni.

Bydd yn rhaid i gynllunio tymor hwy ystyried ffactorau allanol fel casgliadau'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), canlyniad refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, canlyniad Etholiad Cyffredinol San Steffan yn 2015, yr hinsawdd economaidd a phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn felly'n edrych ar y ffordd y mae'r Cynulliad yn cyflawni yn erbyn ei amcanion strategol am y cyfnod.

Amcanion Strategol y Comisiwn ar gyfer y y Pedwerydd Cynulliad

Amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad sy'n rhoi ffocws i'n gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r amcanion hyn yn nodi y byddwn yn:

– darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– ymgysylltu â phobl Cymru;

– hyrwyddo Cymru; a

– defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Rhoddodd y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ym mis Mawrth 2011 fwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad, a rhoddodd sail gyfansoddiadol newydd i'r ddeddfwrfa. A hithau'n gallu deddfu yn yr 20 maes datganoledig heb orfod cael cytundeb Senedd y DU yn gyntaf, rhoddodd y canlyniad fandad i'r Comisiwn adolygu lefel y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i gyflawni'u cyfrifoldebau cynyddol i bobl Cymru'n effeithiol.

Roedd pethau eraill yn ysgogi newid. Mae'r Cynulliad, yn ôl cais y Llywydd, wedi cyflwyno rhai newidiadau i'r busnes yn y Cyfarfod Llawn ac yn y Pwyllgorau i gyd. Yn arbennig, cafodd strwythur Pwyllgorau newydd a mwy arbenigol ei gyflwyno i gryfhau gwaith craffu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r newid hwn hefyd wedi rhoi cyfle i'r Cynulliad adolygu effeithiolrwydd yr adnoddau sydd ar waith i wasanaethu gwaith pwyllgor y Cynulliad. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau, ac er ei fod yn parhau, cafodd newidiadau uniongyrchol mewn ymateb i adborth Aelodau eu rhoi ar waith.

Er enghraifft, mae'r Aelodau bellach yn cael mwy o sesiynau briffio wyneb yn wyneb ar bynciau arbennig y gallant fod yn craffu arnynt. Mae geirfaoedd dwyieithog o dermau technegol ac arbenigol bellach yn cael eu cynhyrchu ar unrhyw Fil sydd gerbron y Cynulliad er mwyn helpu i alluogi Aelodau i weithio yn eu dewis iaith. Yn ychwanegol at hyn, mae dyfeisiau tabled yn cael eu treialu er mwyn caniatáu i Aelodau weithio'n fwy effeithiol a gallu crynhoi'n well y swmp sylweddol o waith papur sy'n gysylltiedig â gwaith pwyllgor.

Cafodd y newidiadau hyn eu nodi'n rhannol drwy arolwg o farn Aelodau'r Cynulliad a'u staff ar y cymorth a ddarperir gan y Comisiwn.

Roedd y canlyniadau'n galonogol, gyda'r gyfradd bodlonrwydd cyfartalog ar draws yr arolwg i gyd yn 7.6 allan o 10 i Aelodau, ac yn 7.5 allan o 10 i staff cymorth. Mae'r canfyddiadau wedi caniatáu i'r Comisiwn flaenoriaethu gwelliannau i'r gwasanaethau hynny y teimla'r Aelodau fwyaf cryf yn eu cylch, fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gwell, mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i Aelodau a'u staff, pa mor amserol yw papurau Pwyllgor, eu maint a'r sylw y mae'r cyfryngau'n ei roi i'r Cynulliad.

Yn ystod toriad yr Haf a thymor yr Hydref 2012, cafodd y system meddalwedd sy'n rhedeg y systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chlyweledol yn y Siambr ei uwchraddio'n llawn. Y nod oedd rhoi mwy o gadernid a dibynadwyedd i'r system a sicrhau bod y darparwyr yn cefnogi'r holl elfennau. Gall yr Aelodau bellach ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office 2010 yn y Siambr yn lle Office 2003, a chafodd y ffordd y mae defnyddwyr yn cael mynediad at y rhaglenni hyn ei wella. Cafodd y cyfrifiaduron personol yn y Siambr - a oedd yn saith oed - eu newid, ynghyd â rhywfaint o'r offer rheoli a ddefnyddiwyd i redeg y system bleidleisio a microffonau.

Deddfwriaeth

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, bu newid mawr ym maint y ddeddfwriaeth a gafodd y Cynulliad gerbron i'w hystyried. Ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, cafodd wyth Bil eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, dau gan Aelodau'r Cynulliad ac un gan Gomisiwn y Cynulliad. Cafodd tri o'r rheini Gydsyniad Brenhinol ac maent bellach yn Ddeddfau'r Cynulliad.

Mae'r newid cyflymdra hwn yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, yn enwedig tuag at ddiwedd y flwyddyn hon, wedi ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn hyblyg yn y ffordd yr ydym yn trefnu cymorth ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad ar ddeddfwriaeth. Darperir cymorth i bwyllgorau ac i Aelodau Cynulliad unigol gan dimau integredig sy'n rhoi cyngor arbenigol ar gefndir polisïau, materion gweithdrefnol a'r sefyllfa gyfreithiol. Gwnaed newidiadau felly cyn yr angen i ymateb i newid mewn cyflymdra rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, a gyflymodd yn sylweddol tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Yn ychwanegol at hynny, mae'r Cynulliad wedi ystyried 11 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unig. Bydd yn rhaid ystyried y memoranda hyn pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc a gafodd ei ddatganoli eisoes i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae cytundeb rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad roi ei gydsyniad cyn y gall Senedd y DU basio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Bydd y Cynulliad yn rhoi'r cydsyniad hwn drwy gyfrwng Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol. Ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, mae newidiadau yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad wedi golygu bod mwy o gyfle i bwyllgorau graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae'r Pwyllgor Busnes yn adolygu gweithdrefnau cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd er mwyn eu cryfhau ymhellach, yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ym mis Mawrth 2012.

Yn nodedig, cafodd un o Filiau'r Cynulliad (Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012) ei gyfeirio am y tro cyntaf eleni i'r Goruchaf Lys gan y Twrnai Cyffredinol ac roedd posibilrwydd cryf – na chafodd ei wireddu yn y pen draw - y byddai un arall yn cael ei gyfeirio, mewn perthynas â Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru) 2012 y Comisiwn (Deddf bellach). Rhoddodd y Goruchaf Lys ddyfarniad yn achos y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) ym mis Tachwedd 2012. Canfu'n unfrydol fod dwy ddarpariaeth y Bil a heriwyd gan y Twrnai Cyffredinol o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru) at y Twrnai Cyffredinol, i ystyried a ddylid ei gyfeirio hefyd at yr Uchel Lys. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Twrnai Cyffredinol ym mis Hydref 2012 ei fod wedi penderfynu peidio â'i gyfeirio yno. Felly'r Bil oedd Deddf gyntaf y Cynulliad i gael Cydsyniad Brenhinol.

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf



Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymchwiliadau	Deddfwriaeth	MCD
05	01	02

Y Pwyllgor Cyllid

Ymchwiliadau	Deddfwriaeth	MCD
04	00	00

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Inquiries	Deddfwriaeth	MCD
05	03	00

Y Pwyllgor Deisebau

Inquiries	Deddfwriaeth	MCD
04	00	00

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Inquiries	Deddfwriaeth	MCD
05	00	00

1532

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd

2600

Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd

Gwneud busnes y Cynulliad yn fwy ymatebol

Yn dilyn adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r gweithdrefnau ar gyfer Cwestiynau Llafar y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn, cytunodd y Cynulliad i fyrhau'r cyfnod rhybudd ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad, er mwyn i fusnes y Cynulliad fod yn fwy amserol. Yn flaenorol, cafodd cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog, Gweinidogion eraill y Cabinet, y Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn eu cyflwyno bythefnos ymlaen llaw. Cytunodd y Cynulliad i leihau hyn i dri diwrnod gwaith yn achos Cwestiynau'r Prif Weinidog ac i bum diwrnod gwaith ar gyfer sesiynau Cwestiynau Llafar eraill y Cynulliad.

Cytunodd y Cynulliad ar Reolau Sefydlog newydd er mwyn darparu dull ar gyfer Cyflwyno Biliau Preifat. Caiff Bil Preifat ei gyflwyno gan unigolion neu sefydliadau y tu allan i'r Cynulliad er mwyn cael pwerau iddynt eu hunain sydd uwchlaw, neu'n groes i gyfraith gyffredinol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael y pŵer i ymdrin â Biliau Preifat o fewn y meysydd lle mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, roedd y broses Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol a oedd yn bodoli cyn mis Mai diwethaf yn golygu bod Biliau o'r fath yn annhebygol iawn o gael eu cyflwyno. Yn y Trydydd Cynulliad, gelwid deddfau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Fesurau. Gellid ond pasio'r Mesurau hyn pan oedd gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud hynny. Mewn meysydd lle nad oedd ganddo gymhwysedd, roedd angen i'r Cynulliad gyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol. Mae'r newid yn y Rheolau Sefydlog yn golygu bod gan y Cynulliad Cenedlaethol yn awr weithdrefn ar waith i ystyried Biliau Preifat. Cyn hynny, cafodd Biliau Preifat a oedd yn ymwneud â Chymru eu hystyried yn San Steffan.

Gwella sgiliau

Amcan mawr i'r Comisiwn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yw sicrhau fod gan Aelodau'r Cynulliad y gallu a'r gefnogaeth i wneud gwaith craffu a deddfu mor effeithiol â phosibl, yn ogystal â chynrychioli amrywiol anghenion eu hetholwyr.

O ganlyniad i hynny, mae gan y Comisiwn raglen lawn o ddatblygiad proffesiynol parhaus i Aelodau a'u staff. Mae hyn wedi darparu hyfforddiant amserol ar faterion sy'n berthnasol nid yn unig i waith y Cynulliad ond i fywydau dyddiol etholwyr y mae Aelodau'r Cynulliad yn eu cynrychioli.

Mae'r tîm Datblygiad Proffesiynol wedi darparu nifer o gyrsiau a gynlluniwyd i wella gallu'r Cynulliad i ymgysylltu â phobl Cymru, fel hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac iaith glir. Y mis Ionawr, rhoddwyd cefnogaeth i Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad fynd ar gwrs Mind Cymru ar gymorth cyntaf iechyd meddwl. Rhoddodd hwn y gallu a oedd ei angen arnynt i allu helpu rhywun mewn argyfwng.

Mae'r tîm Datblygiad Proffesiynol, mewn cydweithrediad â Chymorth i Fenywod Cymru, wedi cefnogi amryw o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad i ystyried mewn mwy o fanylder, y mater o gam drin domestig, ac i ddysgu'r ffordd orau o gefnogi etholwyr sy'n profi hynny. Bydd hyn yn gwella'r gefnogaeth y gall Aelodau a'u staff ei chynnig i bobl sydd mewn amgylchiadau anodd a chymhleth iawn weithiau.

Datblygwyd hyfforddiant mewn cydweithrediad ag Achub y Plant ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc. Galluogodd hyn i bwyllgorau craffu ystyried sut y gallai eu gwaith effeithio ar blant a phobl ifanc. O ganlyniad i'r hyfforddiant, mae ystyried hawliau plant a phobl

ifanc yn cael ei brif ffrydio gan y pwyllgorau hynny sy'n gyfrifol am graffu ar y Biliau a'r polisïau sy'n eu heffeithio.

Cafwyd sesiwn friffio hefyd ar drafodaethau'r Undeb Ewropeaidd ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r polisi hwn yn berthnasol yn ariannol i ffermwyr ym mhob rhan o Gymru, a bu'n ganolbwynt ymchwiliad parhaus y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ers Hydref 2011. Cyflwynwyd y sesiwn friffio i gynulleidfa fyw yn y Senedd. Cafodd ei ffilmio ac roedd ar gael i Aelodau a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ledled Cymru i'n galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach mewn ffordd gynaliadwy a oedd yn gyfleus iddynt hwy.

Penododd y Pwyllgor Cyllid gynghorydd technegol ar gyfer y broses o graffu ar y gyllideb ddrafft. Rôl y cynghorydd yw rhoi cymorth i gadeiryddion yr holl bwyllgorau er mwyn sicrhau gwaith craffu ac argymhellion mwy penodol ac wedi'u cydgysylltu'n well. Bu'r cynghorydd hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ymchwil a'r tîm Cyswllt ag Aelodau a Datblygiad Proffesiynol i ddatblygu a darparu sesiynau hyfforddi ar graffu ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth Cynlluniwyd y sesiynau hyn i amlinellu'r pedair egwyddor gyffredinol o waith craffu ariannol da, (fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phroses) gan ganolbwyntio ar roi hyn ar waith gyda'r gyllideb ddrafft. Darparwyd y sesiynau hyn fesul Grŵp Plaid a chawsant dderbyniad da, gydag adborth cadarnhaol a cheisiadau am ragor o sesiynau.

Darparwyd hyfforddiant ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hefyd ar amrywiaeth eang o bynciau. Aethant i'r afael â materion ymarferol fel ysgrifennu areithiau a darllen yn gyflym, ond roedd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys sgiliau mwy haniaethol fel ymdrin ag etholwyr sy'n agored i niwed a chanllawiau ar ennill hyder mewn sefyllfaoedd anodd a chyhoeddus.

Ym mis Hydref 2012, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru) yn ddeddf. Drwy gydnabod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol, bydd y Bil yn gosod dyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i drin y ddwy iaith yn gyfartal.

Nododd y Llywydd ei bod yn ddiwrnod hanesyddol yn hanes datganoli yng Nghymru, gyda'r Bil yn rhoi dyletswydd statudol i roi cydraddoldeb i'r ddwy iaith wrth ddarparu'r gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd.

Dywedodd Rhodri Glyn Thomas AC, y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg a phasio'r Bil, fod y Bil yn rhoi esiampl i sefydliadau sy'n gweithio ledled Cymru yn y sectorau cyhoeddus a phreifat o sut i ymdrin â dwyieithrwydd.

Roedd y Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i lunio Cynllun Ieithoedd Swyddogol i sicrhau statws cyfartal i'r ddwy iaith. Bydd y cynllun, sydd i'w lansio ym mis Gorffennaf 2013, yn amlinellu'r trefniadau ymarferol i alluogi'r Cynulliad i weithredu'n ddwyieithog. Bydd hefyd yn sicrhau hawl unrhyw un sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad (tystion a swyddogion yn ogystal ag Aelodau) i wneud hynny yn unrhyw un o ddwy iaith swyddogol y Cynulliad. I gyflawni'r uchelgais a amlinellir yn y cynllun hwn, bydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithio i wella'r gwasanaethau dwyieithog y mae'n eu cynnig i Aelodau a phobl Cymru ac i ddatblygu sgiliau a hyder staff y Cynulliad i ddefnyddio'u Cymraeg.

Ymgysylltu â phobl Cymru

Mae'r Cynulliad wedi ymgysylltu â phobl Cymru ar nifer o lefelau yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cychwyn ar y gwaith o annog mwy o bobl i ymweld â'r Senedd, pan gyfunwyd y siop a'r siop goffi. Roedd hyn yn caniatáu i bobl bori drwy gasgliad o gynnyrch Cymreig, o flancedi Melin Tregwynt a gomisiynwyd gan y Cynulliad i gynnyrch bwyd arbennig o Gymru. Y nod, yn ôl Sandy Mewies AC, Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau Cyswllt Cyntaf, oedd gwella apêl y Senedd i ymwelwyr hamddenol, a rhoi cyfle iddynt ddysgu mwy am rôl y Cynulliad ar yr un pryd.

Fel arweinydd y Cynulliad, mae'r Llywydd wedi arwain nifer o fentrau gyda'r nod o sicrhau bod mwy o bobl ledled Cymru'n cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Fel Llywydd benywaidd cyntaf Cymru, cynhaliodd Rosemary Butler gyfres o seminarau ledled Cymru i ysbrydoli menywod o bob cefndir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae menywod uchel eu proffil o fyd gwyddoniaeth a chwaraeon eisoes wedi gwneud areithiau allweddol i gynulleidfaoedd o fenywod yn y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys y Farwnes Susan Greenfield, y gwyddonydd blaenllaw; a'r Athro Laura McAllister, Cadeirydd Chwaraeon Cymru.

Mae'r sesiynau hyn gyda ffigurau cyhoeddus yn ganlyniad mandad a roddwyd i'r Llywydd yn y Gynhadledd Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd. Y mandad oedd sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n parhau i annog menywod i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, ac i'r Cynulliad gynnal a gwella'i gymwysterau cadarnhaol o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Y nod yw annog mwy o fenywod i gymryd rhan mewn cymdeithas ddinesig. Gellir gwneud hyn drwy fod yn llywodraethwyr ysgol, yn aelodau o fyrddau cyrff cyhoeddus, yn Ynadon neu wneud swyddi eraill mewn bywyd cyhoeddus. Mae meysydd ychwanegol fel y gyfraith, rhyddid sifil a'r cyfryngau hefyd yn enghreifftiau o le mae menywod yn wynebu rhwystrau gwirioneddol neu honedig. Ymhlith y siaradwyr yn y dyfodol bydd Shami Chakrabarti, yr ymgyrchydd rhyddid sifil, Janet Street Porter, y ddarlledwraig a'r newyddiadurwraig, Tanni Grey-Thompson, un o fawrion Paralympaidd Cymru a Bethan Elfyn y Troellwr Disgiau o Gymru.

Mae'r Llywydd hefyd wedi cyhoeddi y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cynyddu'r gwasanaethau mentora a chynghori sydd ar gael i fenywod drwy lansio porth newydd ar y we a fydd yn gweithredu fel siop un stop ar gyfer menywod sy'n dymuno canfod mwy am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn bywyd cyhoeddus, sut i wneud cais amdanynt, a sut i elwa o brofiadau sy'n cael eu rhannu gan fenywod eraill. Yn ddiweddarach yn 2013, bydd y Llywydd hefyd yn lansio cynllun cysgodi a mentora i fenywod ddysgu mwy am gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Bydd y cynllun yn darparu hyfforddiant dwys mewn datblygiad personol a sgiliau; cymorth mentora un i un; a chyfleoedd i gysgodi swyddi ar y lefelau uchaf i ysgogi ac annog nifer o gyfranogwyr ledled Cymru i allu ymgeisio'n llwyddiannus am benodiadau cyhoeddus ar bob lefel yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Ym mis Mai, lansiodd y Llywydd y gystadleuaeth "Democratiaeth ar Waith" yn Ysgol Ffilm, Ffotograffiaeth a Chyfryngau Digidol Casnewydd.

Nod y gystadleuaeth, a oedd yn cael ei rhedeg mewn cydweithrediad â Ffotogallery, hyrwyddwyr y cyfryngau lens yng Nghymru ac Ysgol Ffilm, Ffotograffiaeth a Chyfryngau Digidol Prifysgol Casnewydd, oedd annog pobl yng Nghymru i weld sut y gall unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau achosi newidiadau a dangos hynny drwy ddal y ddelwedd honno ar eu camera neu eu ffôn clyfar.

Daeth bron i 200 o luniau i law ac mae'r beirniaid a'r cyhoedd wedi dewis eu henillwyr.

Tom Ashmore, ffotograffydd dogfennol o Gaerdydd, oedd dewis y beirniaid gyda'i lun "Adfer Caerdydd", yn dangos ymgyrchwyr yn paratoi ar gyfer protest. (isod)

Gwaith Robert Guy o Bengam oedd dewis y cyhoedd, sef y llun "Gwacter Bregus". Mae'n fyfyriwr ffotograffiaeth ym Mhrifysgol Casnewydd. (isod)

Yn ystod Gwanwyn 2012, cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes ymchwiliad i brentisiaethau yng Nghymru, er mwyn gweld a yw'r system bresennol yn gwasanaethu'n effeithiol anghenion economi Cymru, ynghyd ag anghenion cyflogwyr a phobl ifanc.

Cynhaliwyd trafodaethau cynllunio rhwng tîm cyfathrebu'r Cynulliad a chlerc y Pwyllgor er mwyn trafod opsiynau ymgysylltu ar gyfer yr ymchwiliad. Teimlwyd y byddai'r gynulleidfa darged ar gyfer llawer o'r ymchwiliad yn ymateb yn dda i fath mwy uniongyrchol a llai ffurfiol o gyflwyno tystiolaeth. O ganlyniad i hynny, cafodd prentisiaid, busnesau, darparwyr hyfforddiant, pobl a oedd yn chwilio am waith, colegau a phobl ifanc gyfweliad gan y tîm allgymorth. Cafodd y cyfweliadau eu ffilmio a'u golygu i becyn cydlynol a oedd yn rhoi cipolwg ar drawstoriad eang o farn rhanddeiliaid ar gyfer yr ymchwiliad.

Cyflwynwyd y fideo i'r Pwyllgor a dosbarthwyd copi digidol i bawb a gymerodd ran, ynghyd â gwybodaeth am sesiynau craffu a dadleuon yn y Cyfarfod Llawn a oedd ar fin digwydd.

Ym mis Hydref 2012, lansiwyd adroddiad yr ymchwiliad i'r cyfryngau yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr, a oedd hefyd wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad. Gwahoddwyd y rhai a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad i'r lansiad hefyd a rhoddwyd cyfle iddynt holi'r Pwyllgor am yr argymhellion yr oedd yn eu cynnig i Lywodraeth Cymru.

Roedd lansiad yr adroddiad yn ddigwyddiad bywiog a dymunol o ganlyniad i'r lleoliad a natur amlgyfrwng y trafodion. Cafodd sylw sylweddol gan y cyfryngau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Ymgysylltu â phobl Cymru yng Ngwaith y Cynulliad

Bu timau allgymorth a chyfathrebu'r Cynulliad yn gweithio'n agos â phwyllgorau'r Cynulliad i sicrhau y gall pobl Cymru nid yn unig gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad ond hefyd, drwy'r cyfryngau, gael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau swyddogaethau deddfu a chraffu'r Cynulliad.

Addysgu pobl ifanc Cymru

Bu ymgysylltu â phobl ifanc mewn addysg hefyd yn flaenoriaeth i'r Cynulliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan ein gwasanaeth addysg weledigaeth strategol i ysbrydoli pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithgar drwy ddealltwriaeth gynyddol o ddemocratiaeth, ymgysylltiad dinesig, pleidleisio a chynrychiolaeth wleidyddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddodd y gwasanaeth addysg gyflwyniadau a gweithdai i dros 600 o ysgolion a cholegau gan gyrraedd cynulleidfa o bron i 20,000 o ddisgyblion. Mae hefyd yn cynnig gweithgareddau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, sydd wedi'u teilwra ynghyd â gwasanaeth cefnogi mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae'r rhain yn amrywio o etholiadau ffug a sesiynau "Hawl i Holi" i gyfarfod ag Aelodau Cynulliad lleol.

Roedd ymchwiliad mwyaf y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod 2012 ar ofal preswyl i bobl hŷn. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i siarad â'r rheini oedd â phrofiad uniongyrchol o wasanaethau gofal preswyl yng Nghymru. I'r perwyl hwn, cytunodd yr Aelodau i sefydlu grŵp cyfeirio a oedd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd.

Dewiswyd Age Cymru ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yng Nghymru i hwyluso gwaith y grŵp. Buont yn gweithio gyda'r Pwyllgor a'i staff i chwilio am aelodau i'r grŵp, ac i hwyluso'u trafodaethau a'u cyfraniadau i'r ymchwiliad.

Bu'r grŵp yn cysgodi gwaith y Pwyllgor – yn dilyn pob cyfarfod, yn ymateb i dystiolaeth ac yn cynnig cwestiynau i'w holi i dystion yn y dyfodol – a daeth i'w gasgliadau a'i argymhellion allweddol ei hun yn y diwedd. Sicrhaodd y gwaith hwyluso arbenigol a ddarparwyd gan Age Cymru ac Ymddiriedolaeth y Gofalwyr fod pwnc emosiynol ac anodd yn cael ei drin yn ofalus ac yn sensitif. Sicrhaodd hefyd fod llais y cyhoedd yn gyffredinol yn cael ei glywed gan y Pwyllgor wrth wneud ei waith.

Fel y nodwyd gan un aelod o'r grŵp:
"Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn o fod wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad ac o fod yn rhan o wella ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal gobeithio.

"Yn ystod ein sesiwn gyntaf, cefais fy nhagu gan emosiwn a oedd yn ddig a rhwystredigaeth yn bennaf, yn deillio o'r tristwch o golli fy mam i ddementia a'i charcharu mewn cartref gofal.

"Nawr, ar ddiwedd y sesiynau, rwy'n cael fy nhagu gan emosiwn eto, ond y tro hwn gyda theimlad o falchder a heddwch fy mod wedi gallu siarad dros fy mam a phawb arall na allant siarad drostynt eu hunain.

Diolch am roi cymaint o gyfle i ni ofalwyr."

Mae'r tîm addysg hefyd yn gweithio gyda CBAC i ddarparu cynhadledd ddeuddydd ar gyfer myfyrwyr 'Llywodraeth a Gwleidyddiaeth' lefel A/AS, yn cynnwys gweithdai rhanbarthol arbennig ar gyfer grwpiau Bagloriaeth Cymru a Gwasanaethau Cyhoeddus BTEC. Mae athrawon hefyd wedi elwa o fynychu sesiynau hyfforddi athrawon yn y Senedd ac yn y rhanbarthau. Caiff y digwyddiadau hyn eu trefnu mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaid allanol a meysydd gwasanaeth mewnol.

O ran gweledigaeth tymor hwy, bydd adolygiad o ddarpariaeth addysgol y Cynulliad yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu mwy effeithiol ac yn addasu'r hyn yr ydym yn ei gynnig i gynnwys anghenion dysgu newydd ac i gyrraedd defnyddwyr newydd. Mae'r Comisiwn wedi nodi mai amcan allweddol ar gyfer y dyfodol fydd sicrhau bod pobl ifanc - y rheini sy'n ymweld â'r Senedd a'r rheini mewn ysgolion a sefydliadau ieuenctid - yn cael cynnig cyfleoedd ystyrlon i lywio busnes y Cynulliad a chymryd rhan ynddo.

Hygyrchedd

Mae ymgysylltiad effeithiol yn â phobl Cymru yn flaenoriaeth i'r Cynulliad. I gyflawni hyn, rhaid i ni sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch i bob cynulleidfa yng Nghymru.

Cyfarfu staff â'r elusen Action on Hearing Loss er mwyn gweithio tuag at gael y nod siarter Yn Uwch na Geiriau, fel rhan o nifer ehangach o weithgareddau i sicrhau y gellir ystyried y Cynulliad yn sefydliad cyfeillgar i bobl fyddar.

Yn ystod y cyfnod yn arwain at y digwyddiad i ddathlu'r gemau Paralympaidd yn y Senedd, rhoddodd ein Tîm Cydraddoldeb hyfforddiant i swyddogion diogelwch a oedd i weithio ar y diwrnod hwnnw, ar y ffordd fwyaf effeithiol o groesawu ymwelwyr anabl i'n hystâd. Yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus hwn, mae'r hyfforddiant yn cael ei ymestyn i'r holl staff diogelwch a chyswllt cyntaf ac mae hefyd ar gael i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau amrywiol ledled Cymru. Er enghraifft, rydym wedi ymgysylltu â'r gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) ym Mardi Gras Caerdydd-Cymru, nodi'r Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia ar ein blog a thrwy ffilmio fideos o Aelodau'r Cynulliad yn hyrwyddo'r ymgyrch 'Mae'n Gwella' yn erbyn bwlio homoffobig. Hefyd, am y tro cyntaf erioed, roedd gan y Cynulliad bresenoldeb yn y Mela Amlddiwylliannol ym Mae Caerdydd, i ddathlu diwylliant Asia. Hyrwyddodd staff y broses ddeisebu i'r rhai a oedd yn bresennol a chyhoeddwyd gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd cymunedol.

Am y pumed flwyddyn yn olynol, cafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei restru ymhlith y 100 cyflogwr mwyaf cyfeillgar tuag at bobl hoyw yn y DU. Mae'r Mynegai Cydraddoldeb blynyddol yn meincnodi sefydliadau ledled y DU drwy asesu strategaethau corfforaethol, rhwydweithiau staff LGB, ymgysylltiad a datblygiad staff ac ymgysylltiad cymunedol. Rhestrwyd y Cynulliad fel enghraifft o'r arfer gorau am y gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn perthynas ag ymgysylltiad cymunedol. Caiff y Cynulliad ei restru'n 26ain yn y DU ac yn bumed yng Nghymru o'r 100 cyflogwr gorau yn y DU i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Ymweliadau rhyngwladol

Hyrwyddo Cymru

Gwelwyd nifer o fentrau pwysig yn ystod y flwyddyn lle cymerodd y Cynulliad agwedd ragweithiol o ran hyrwyddo Cymru ar lefel ryngwladol yn ogystal â chenedlaethol.

Ymwelodd Pwyllgor Amgylcheddol a Chymdeithasol y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA) â'r Senedd fis Mehefin diwethaf ar gyfer cyfarfod a gynhaliwyd gan y Dirprwy Lywydd fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor BIPA i fasnachu mewn pobl. Roedd Joyce Watson AC, Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad ar Fasnachu mewn Pobl ymhlith y rheini a oedd yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Croesawodd y Senedd hefyd gyfarfod o Bwyllgor Sefydlog CALRE (Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop) ym mis Gorffennaf 2012. Ymhlith y rhai a gymerodd ran roedd cynrychiolwyr o Seneddau Extremadura, Yr Ynysoedd Dedwydd a Murcia yn Sbaen; Cynghorau Rhanbarthol Veneto a Trentino yn yr Eidal; Senedd y Gymuned yng Ngwlad Belg sy'n siarad Almaeneg; a Senedd Äland yn y Ffindir. Yn ogystal â chael cyfle i ddangos y Senedd a hyrwyddo democratiaeth Cymru, fe wnaethom roi cyflwyniad ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i Aelodau'r Cynulliad. Cafodd hwn dderbyniad da ac mae wedi creu diddordeb wedi hynny yn y maes hwn o waith y Cynulliad.

Ym mis Medi, aeth Rebecca Evans AC i Gynhadledd Seneddol rhif 58 y Gymanwlad yn Colombo, Sri Lanca. Thema'r gynhadledd oedd sicrhau bod y Gymanwlad yn berthnasol yn y dyfodol. Cymerodd Rebecca ran lawn yn y gynhadledd, gan gynnwys bod yn bresennol yng nghyfarfod Seneddwragedd y Gymanwlad a'r Cynulliad Cyffredinol. Cymerodd ran weithredol mewn amryw o weithdai hefyd gan gynnwys 'mynd i'r afael â diweithdra ymhlith ieuenctid,'lle tynnodd sylw at agwedd Cymru tuag at wynebu'r her hon.

Arweiniodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth drawsbleidiol (yn cynnwys Ken Skates AC, William Powell AC, Joyce Watson AC ac Elin Jones AC) i gynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sesiwn Cyfarfod Llawn rhif 45 y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig yn Glasgow ym mis Hydref 2012 ar y thema "Economi'r Alban a Chysylltiadau Gwyddelig/Albanaidd". Cyflwynodd y Dirprwy Lywydd bapur a oedd yn cynnig sefydlu Pwyllgor BIPA i ganolbwyntio ar Faterion a Ddatganolwyd.

Croesawodd y Llywydd hefyd ymweliadau diplomataidd gan HE Mr János Csák Llysgennad Hwngari; HE Mr Iztok Jarc Llysgennad Slofenia; a HE Mr Berhanu Kebede Llysgennad Ethiopia. Rhoddodd drosolwg o'r Cynulliad a'i waith ac arwyddocâd y pwerau deddfu sylfaenol a gafwyd yn dilyn refferendwm 2011 i'r Cynulliad ac i bobl Cymru. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd y mae'n ei roi ar hyrwyddo Cymru a democratiaeth Cymru ar lwyfan y byd a rôl gadarnhaol perthynas ddiplomataidd o ran cyflawni hyn.

Mae'r Cynulliad wedi parhau i chwarae rhan gadarnhaol o ran ymgysylltu â phrosesau creu polisïau a deddfau'r UE ar feysydd allweddol sydd o ddiddordeb i Gymru, drwy'r dull newydd o 'brif-ffrydio' materion yr UE ar draws pwyllgorau, a gyflwynwyd o dan y Cynulliad hwn. Ymwelodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Menter a Busnes â Brwsel yn ystod 2012-2013, gan gynnal trafodaethau gydag uwch swyddogion o sefydliadau'r UE ac amrywiaeth o gynrychiolwyr sydd wedi'u lleoli ym mhrifddinas Ewrop.

Mae llawer o'r gwaith ar faterion Ewropeaidd wedi canolbwyntio ar y rôl ganolog y gall y Cynulliad ei chwarae o ran galluogi rhanddeiliaid yng Nghymru i gymryd rhan weithgar ym mhroses ddeddfu'r UE, gyda'r pwyllgorau'n chwarae rhan yn y datblygiadau yn y trafodaethau ac yn trafod gyda rhanddeiliaid o Gymru ar adegau allweddol yn y trafodaethau ar faterion yn cynnwys y gwaith ar ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, Cronfeydd Strwythurol, Horizon 2020 a Chaffael Cyhoeddus. Cafodd hyn ei ategu gan agwedd wedi'i thargedu ym Mrwsel, yn canolbwyntio'n arbennig ar Senedd Ewrop a'i rôl fel cyd-ddeddfwr gyda Chyngor y Gweinidogion, gyda phwyllgorau'r Cynulliad yn siarad 'ddeddfwrfa wrth ddeddfwrfa', gweithio gydag Aelodau Cymreig Senedd Ewrop ac Aelodau o Senedd Ewrop sy'n arwain ar goflenni allweddol perthnasol er mwyn sicrhau bod pryderon Cymru'n cael eu deall ac yn cael gwrandawiad.

Yn ei rôl fel un o ddau gynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau sydd wedi'i leoli ym Mrwsel, bu Rhodri Glyn Thomas AC yn neilltuol o weithgar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafodd ei ddewis i ysgrifennu dwy ddogfen farn allweddol ar agenda Ewrop, y ddwy wedi'u cysylltu'n agos â'r trafodaethau ar Fframwaith Ariannol Amlflwydd yr UE ar gyfer 2014-2020. Drwy'r gwaith hwn, cafodd proffil y Cynulliad a Chymru eu codi, pan gafodd ei safbwyntiau eu cyflwyno yn yr laith Gymraeg yn sesiwn Cyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel, yn ogystal â thrwy gynnal cyfarfodydd gyda Chomisiynydd Cyllideb yr UE, uwch swyddogion o Fanc Buddsoddi Ewrop yn Luxembourg, a thrwy siarad mewn nifer o gynadleddau uchel eu proffil ym Mrwsel a ledled Ewrop.

Mae'r Cynulliad wedi chwarae rhan bwysig o ran ymgysylltu â'r sector gyfreithiol yng Nghymru yn ogystal â'i datblygu a'i hyrwyddo. Agwedd ar y gweithgarwch hwn yw cynhadledd flynyddol Cymru'r Gyfraith, a gynhaliwyd yn Llandudno yn 2012. Cafodd y Cynulliad ei gynrychioli ar bwyllgor trefnu'r gynhadledd a'r Dirprwy Lywydd oedd y siaradwr agoriadol, gan sôn am ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad. Ymhlith y siaradwyr eraill roedd nifer o farnwyr amlycaf y DU fel y Farwnes Hale, unig aelod benywaidd y Goruchaf Lys a'r Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Judge.

Rhoddodd y digwyddiad gyfle i Aelodau'r Cynulliad a'r staff sy'n cynrychioli'r Cynulliad ymgysylltu â'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Ar yr un pryd, roedd yn gyfle i hyrwyddo Cymru a'r sector cyfreithiol hwnnw, gan fod siaradwyr a chynrychiolwyr llawn bri o du hwnt i Gymru'n bresennol.

Croesawodd y Senedd y digwyddiadau i groesawu'r rhai a gymerodd ran yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn ystod yr haf, i ddathlu cyflawniadau gwych yr athletwyr o Gymru a oedd yn aelodau o Dîm GB yng Ngemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Roedd hwn yn dderbyniad preifat a oedd wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru ar gyfer yr athletwyr a gwesteion. Cafodd yr athletwyr eu cyfarch ag anerchiadau gan Rosemary Butler AC, y Llywydd, Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a Laura McAllister, Cadeirydd Chwaraeon Cymru.

Daeth y cyhoedd yn eu miloedd a chawsant eu diddanu gan aelodau o Olympiad Diwylliannol 2012 ar risiau'r Senedd - Côr Meibion Glyn Ebwy, Celtic Café, y clarinetydd Lloyd Coleman a Band Bwrdeistref y Fenni.

Cafodd digwyddiadau y tu mewn a'r tu allan i'r Senedd eu darlledu.

Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl, mae'r Comisiwn wedi sefydlu'r Bwrdd Buddsoddi i oruchwylio rhaglen fuddsoddi'r Cynulliad ar gyfer y dyfodol. Ei rôl yw rheoli a goruchwylio Rhaglen Fuddsoddi'r Comisiwn sef y dull yr ydym yn cynllunio ac yn cyflawni prosiectau newid mawr a sicrhau gwaith craffu, blaenoriaethu a rheoli iawn o ddulliau buddsoddi cyfalaf yn y Cynulliad. Mae'n cyfarfod bob pythefnos er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ar y rhaglen yn cael eu gwneud pan fydd angen.

Mae'r angen i fuddsoddi'n codi am nifer o resymau: er mwyn cynyddu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i Aelodau ac i'r cyhoedd, a'u gwella; er mwyn cynnal a gwella ystâd y Comisiwn; ac i gynnal a chadw'n systemau a'n technoleg yn gyfredol. Gall prosiectau mawr gymryd nifer o flynyddoedd o'r syniad cyntaf i'r cyflawniad terfynol - ac mae rheoli'r rhaglen yn golygu cydbwyso argaeledd arian a staff ag anghenion ac amseru prosiectau unigol, eu datblygiad ac amcanion polisi ynghyd â chylch blynyddol y gyllideb.

Yn unol â'r Bwrdd Buddsoddi mae rhaglen Gwerth am Arian y Cynulliad, sy'n gweithio i gyflawni tri phrif ganlyniad, sef:

- Gwella gwybodaeth reoli er mwyn deall yn well gweithgarwch a chost gwasanaethau'r Cynulliad a'r hyn sy'n gyrru'r costau hynny;
- Symleiddio prosesau a'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn uchafu effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cynulliad a gwneud defnydd hyd yn oed yn well o adnoddau;
- Uchafu'r manteision a'r arbedion costau o gaffael a rheoli contractau cadarn.

Caiff y ddarpariaeth o holl wasanaethau'r Cynulliad i Aelodau ac i bobl Cymru felly ei arwain gan fframwaith llywodraethu cryf ac atebol.

Strategaeth TGCh newydd

Mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo strategaeth TGCh newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ardderchog. Mae ei nodau'n cynnwys darparu gwasanaeth TGCh sy'n arloesol, yn ymatebol, yn ddibynadwy, yn hyblyg ac sy'n cynnig gwerth am arian i Aelodau ac i staff ond a fydd hefyd yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at y wybodaeth a'r gwasanaethau TGCh sydd eu hangen arnynt, waeth ble maent wedi'u lleoli. Tynnodd arolwg Aelodau'r Cynulliad a'u staff hefyd sylw at y ffaith bod y rhai a ymatebodd am gael mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd o ran sut y gallant ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Mae'r strategaeth newydd yn nodi'r fframwaith y caiff y dyheadau hyn eu bodloni.

Mae'r Comisiwn eleni wedi cytuno i newid yn sylfaenol y ffordd y caiff ei wasanaethau TGCh eu darparu. Ar hyn o bryd, caiff gwasanaethau TGCh eu darparu drwy gontract Merlin sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cymru ac Atos. Ar ôl adolygiad manwl o'r opsiynau, mae'r Comisiwn wedi penderfynu ymadael â'r trefniadau presennol a sefydlu'i drefniadau darparu gwasanaethau TGCh ei hun. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Comisiwn gyflwyno hyblygrwydd i'r ddarpariaeth o wasanaethau TGCh ac i deilwra gwasanaethau'n fwy penodol i anghenion ei ddefnyddwyr. Y canlyniad fydd gwasanaeth TGCh sy'n cael ei ddarparu'n rhannol gan adnoddau mewnol ac mewn cydweithrediad â chyflenwyr sy'n arwain y farchnad lle maent yn y sefyllfa orau i ddarparu

gwasanaethau arbenigol neu nwyddau fel rhwydweithiau llais a gwybodaeth. Bydd y trawsnewidiad hwn wedi'i gwblhau erbyn canol 2014.

Cafodd y gwaith a wnaed eisoes i wella trefniadau rheoli a diogelu gwybodaeth y Comisiwn y llynedd ei gydnabod gan y Pwyllgor Archwilio. Yr her bellach yw adeiladu ar y gwaith hwn a fydd yn cynnwys rheoli lleihad yn y risgiau gwybodaeth a nodwyd, codi ymwybyddiaeth defnyddwyr o gyfrifoldebau unigol a chyfrifoldebau ar y cyd am ddiogelu gwybodaeth a datblygu prosesau rheoli gwybodaeth fwy effeithiol. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcan hwn, ac i godi proffil rheoli gwybodaeth, mae'r Comisiwn wedi cael cymorth Dirprwy Gomisiynydd Gwybodaeth Cymru, Anne Jones. Mae Anne wedi cytuno i roi cyngor a bydd ei thîm yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ac ymweliadau cynghori.

Mae Polisi Rheoli Risg y Cynulliad yn rhoi ffordd strwythuredig i ni nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n ein hwynebu o ran cyflawni'n hamcanion strategol a darparu'n gwasanaethau. Cafodd y polisi, sy'n ffurfio rhan annatod o Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cynulliad, ei adolygu'n ddiweddar i adlewyrchu newid agwedd a gafodd ei gymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad. Caiff y polisi ei ategu gan ddogfen broses sy'n nodi sut y caiff y polisi ei roi ar waith a'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risgiau.

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE
GADARN O BLAID I BOBL ANABL YN

WE SUPPORT
AGE POSITIVE
EMPLOYER CHAMPION

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Stonewall
TOP 100
EMPLOYERS
2013
100 CYFLOGWR
GORAU

working families
changing the way we live and work

Stonewall
STAR PERFORMER
NETWORK GROUP
2013

INVESTORS IN PEOPLE
Gold

Helpu ein staff i gyflawni rhagoriaeth

Mae Comisiwn y Cynulliad ymhlith y deg uchaf ar restr y Cyflogwyr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n gweithio. Ni yw'r unig sefydliad o Gymru sydd ymhlith y 10 uchaf, ochr yn ochr â Barclays, RBS, Deloitte, BT a KPMG. Mae'r wobr yn cydnabod sefydliadau sy'n gwneud fwyaf i gefnogi anghenion cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith eu holl gyflogwyr. Mae'n adlewyrchu'n dda ar ein polisïau Adnoddau Dynol a'n harferion rheoli staff, ein dulliau gweithio mewn partneriaeth effeithiol ag Undebau Llafur y Cynulliad, a'r ymrwymiad a ddangosir i'n Strategaeth Pobl.

Yn ôl adroddiad y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD), mae'r Cynulliad yn perfformio'n well na'r cyfraddau cyfartalog yn y sectorau cyhoeddus a phreifat o ran absenoldeb salwch. Yn ystod 2011, ffigur y Cynulliad ar gyfer dyddiau absenoldeb oherwydd salwch oedd 5.7 am bob gweithiwr amser llawn, o'i gymharu â chyfartaledd o 8.2 diwrnod yn y sector cyhoeddus a 6 diwrnod yn y sector gweithgynhyrchu a chynhyrchu. Mae gan y Cynulliad yr un lefel o berfformiad â'r sector gwasanaethau preifat. Pan fyddwch yn ystyried sefydliadau o faint tebyg, gyda rhwng 250 a 999 o weithwyr, mae'r Cynulliad hefyd yn curo'r sector gwasanaeth.

Cafodd y Comisiwn ei achredu fel Cyflogwr Cyflog Byw ar ôl ymrwymo i sicrhau bod ei staff i gyd, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cyflogi gan isgontractwyr fel staff arlwyo a glanhau, yn cael o leiaf y Cyflog Byw sef £7.45 yr awr ar hyn o bryd.

Secondiadau

Fel rhan o strategaeth datblygu staff penodedig, gwelwyd cynnydd yn nifer y staff sy'n mynd ar secondiadau ac ar leoliadau cysgodi gwaith yn ystod y flwyddyn yn y Cynulliad a gyda sefydliadau allanol. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd ardderchog i staff gael golwg ar y ffordd y mae sefydliadau eraill yn gweithio, yn ogystal â datblygu'u sgiliau a'u profiadau.

Mae'r Cynulliad wedi cefnogi 21 o leoliadau mewnol (gyda phroses ddethol yn parhau i fynd rhagddi) ers mis Gorffennaf 2012. Mae'r rhain hefyd wedi cynnwys lleoliadau yn ein swyddfeydd yng Ngogledd Cymru ac ym Mrwsel. Yn ychwanegol at hynny, mae 31 aelod o staff wedi mynd ar leoliad i sefydliadau allanol. Mae'r rhain wedi amrywio o ddau reolwr diogelwch yn cysgodi adran diogelwch a'r heddlu yn San Steffan, i aelodau o'r tîm digwyddiadau'n gweithio ochr yn ochr â'u swyddogion cyfatebol yn Senedd yr Alban.

Prentisiaethau yn y Cynulliad

Mae pedwar prentis yn cael eu cyflogi yn y Cynulliad ar gynllun prentisiaeth prawf ac maent yn manteisio ar hyfforddiant ar y safle gyda Choleg Caerdydd a'r Fro yn ogystal â phrofiad gwerthfawr o fod mewn amgylchedd gwaith deinamig a fydd yn ychwanegu llawer at eu CV.

Mae adolygiad o'r cynllun treialu wedi dod i'r casgliad ei fod yn cynnig manteision sylweddol ac roedd yn argymell y dylai'r cynllun barhau i'r dyfodol. Bydd y Cynulliad yn croesawu'r grŵp nesaf o brentisiaid ym mis Ionawr 2014. Cafodd person graddedig hefyd ei recriwtio ar leoliad, fel rhan o strategaeth lleoli myfyrwyr y Cynulliad. Ymhlith y datblygiadau ar gyfer y dyfodol bydd cyflwyno lleoliadau ar gyfer myfyrwyr Meistr a PhD.

Edrych i'r dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar sut mae'r Cynulliad wedi cyflawni yn erbyn ei amcan strategol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, mae gweledigaeth a strategaeth gynllunio'r Comisiwn yn un hirdymor. O ganlyniad i hynny, mae'n rhaid iddo ystyried digwyddiadau sy'n digwydd mewn cyd-destun ehangach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (a elwir yn anffurfiol yn 'Gomisiwn Silk'), wedi dechrau ar ei waith ar Ran II o'i gylch gwaith, gan adolygu pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ystyried unrhyw newidiadau sy'n ddymunol yn neddfwriaeth y DU yn ogystal â mynd i'r afael â'r mater o bwerau deddfu'r Cynulliad.

Cyflwynodd y Llywydd dystiolaeth i Gomisiwn Silk ar 1 Mawrth 2013. Mae'n nodi ei gweledigaeth am sefydliad democrataidd cadarn, hygyrch a phellgyrhaeddol a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn seiliedig ar brofiad y Llywydd hyd yma o weithio o fewn Deddf Llywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at yr angen am newid er mwyn sicrhau bod gan y Cynulliad ddigon o allu i gyflawni'i ddyletswyddau; bod ffiniau pwerau'r Cynulliad yn glir ac yn ddealladwy; a bod gan y Cynulliad yr ymreolaeth fwyaf posibl i weithredu ar faterion sy'n effeithio ar Gymru.

Mae'r Cynulliad eisoes yn rhoi strwythur ar waith a fydd yn caniatáu iddo ystyried ffactorau allanol fel casgliadau Comisiwn Silk, canlyniad refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, canlyniad Etholiad Cyffredinol San Steffan yn 2015, yr hinsawdd economaidd ac unrhyw benderfyniadau neu argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Taliadau, dan arweiniad Syr George Reid.

Mae staff y Cynulliad, mewn cefnogaeth i amcanion strategol y Comisiwn, wedi nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi yn y dyfodol agos - canolig, sef:

- Rhoi Strategaeth TGCh ar waith ar gyfer y dyfodol i fynd â'r Cynulliad i 2014 a thu hwnt.
- Parhau â rhaglen o ragoriaeth ac integreiddio gwasanaethau i gefnogi Busnes y Cynulliad
- Sicrhau bod y Cynulliad yn parhau â'i ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog gwell.
- Parhau i gynyddu ymgysylltiad pobl Cymru â gwaith y Cynulliad, yn enwedig pobl ifanc.
- Gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad, gan gynnwys adeilad eiconig y Pierhead a'r Senedd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn brif leoliadau ar gyfer bywyd cyhoeddus Cymru.

Gyda chymorth Aelodau'r Cynulliad, eu staff, a'r swyddogion mae Comisiwn y Cynulliad yn parhau i ddatblygu ei gryfderau, atgyfnerthu ei lwyddiannau a dod o hyd i feysydd ar gyfer gwelliant. Rydym dros hanner ffordd drwy gyfnod y Pedwerydd Cynulliad ac mae'r Comisiwn ar y trywydd iawn ar gyfer cyflawni ei amcanion strategol. Yn ychwanegol at hynny, bydd cynllun gweithredol o fewn strategaeth gyllidebu sydd wedi'i meincnodi'r glir yn sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i fod yn ddeddfwrfa arloesol a blaengar. Caiff ein llwyddiannau eu mesur yn ôl y ddarpariaeth barhaus o gymorth seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, gan eu galluogi i wasanaethu anghenion eu hetholwyr niferus ac amrywiol ledled Cymru mewn modd effeithiol.

Yr adroddiad ar gynaliadwyedd

Yr adroddiad ar gynaliadwyedd

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

O dan Adran 212 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn ei holl waith.

Gan fod y Cynulliad yn sefydliad blaenllaw yn y sector cyhoeddus, mae gennym rôl hefyd yng nghyswllt hyrwyddo datblygu cynaliadwy a sicrhau bod ein gweithrediadau'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd. Yn 2009, dechreuodd y Cynulliad weithio tuag at ddod yn sefydliad carbon isel erbyn 2015. Mae ein gweledigaeth yn nodi ein huchelgeisiau allweddol mewn perthynas â chynaliadwyedd gweithredol, sydd wedi'u seilio ar yr agweddau allweddol ar y modd y cawn effaith ar yr amgylchedd: gostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau ynni, gostyngiad o 15 y cant mewn allyriadau a gynhyrchir drwy deithio ar fusnes, sicrhau bod adeiladau'r Cynulliad yn effeithlon a chael diwylliant gweithio cyfrifol. Yn 2012/13, gellid priodoli 85 y cant o gyfanswm ein hallyriadau i'r defnydd o drydan a nwy, felly mae lleihau'r defnydd o ynni yn parhau i fod yn gonglfaen i'n strategaeth gynaliadwyedd.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw, ac rydym wedi cyhoeddi data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd ers 2007/08. Rydym yn mesur ac yn cyhoeddi'r data ynghylch ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfrwng **Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol**.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi llwyddo i barhau'r buddsoddiad mewn adeiladwaith ac wedi cyflawni gwelliannau pellach i reolaethau, a hynny yn wyneb tywydd garw ac amserlen fusnes brysur.

Ardystiad rheoli amgylcheddol

Gwnaethom lwyddo i aros ar Lefel 5 (sef lefel uchaf bosibl) Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, a hynny am y chweched flwyddyn yn olynol.

Ein hôl troed carbon

Rydym wedi pennu targed i leihau ein hallyriadau carbon 3 y cant bob blwyddyn. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi sicrhau gostyngiad o 15 y cant yn ein hallyriadau net cyffredinol. Eleni yn unig, cynyddodd ein hallyriadau net 1.1 y cant, yn bennaf oherwydd galw mawr am nwy yn ystod y gaeaf oer hir a chynnydd yn y defnydd o ddŵr.

Ynni

Gwnaethom lwyddo i leihau allyriadau trydan 4 y cant ar draws yr ystâd; fodd bynnag, o ganlyniad i gyfnodau hir o ddefnyddio nwy mewn ymateb i dywydd oer gaeafol a oedd yn parhau, cynyddodd ein hallyriadau ynni cyffredinol 1.5 y cant. Er ein bod wedi methu â chyflawni ein targed blynyddol eleni o leihau allyriadau 8 y cant, rydym er hynny wedi cyflawni gostyngiad cronnol o 22 y cant dros y pum mlynedd diwethaf.

– Gwnaethom ddefnyddio'r boeler biomas yn y Senedd yn y modd gorau posibl; o ganlyniad, roedd yn gyfrifol am 81 y cant o'r holl adnoddau y mae eu hangen ar gyfer gwresogi.

Teithio

Roedd cyfanswm yr allyriadau o deithio ar fusnes yn debyg i gyfanswm y flwyddyn flaenorol, gan y gwelwyd gostyngiad bach o 1 y cant. Gan ystyried y ffaith bod data ychwanegol yn cael ei gynnwys wrth i brosesau wella, dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi sicrhau gostyngiad cronnol o 8 y cant, gan sicrhau ei bod yn bosibl o hyd y byddwn yn cyflawni ein nod o leihau allyriadau 15 y cant erbyn 2015.

– Rydym wedi cynyddu ein defnydd o drenau ar gyfer teithio ar fusnes 35 y cant dros y pum mlynedd diwethaf.

– Rydym wedi lleihau ein defnydd o geir preifat ar gyfer tethio ar fusnes 5.8 y cant, ac wedi cynyddu'r defnydd o'r car allyriadau isel at ddefnydd pawb 63 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

– Gwnaethom leihau cyfradd allyriadau gyfartalog ein ceir llog i 111g/CO2, ac roedd 95 y cant o'r holl geir a gafodd eu llogi â maint injan o 1.6l neu lai.

Gwastraff

Mae cyfanswm yr allyriadau gwastraff wedi lleihau 50 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i ostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchir a llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.

– Gwnaethom leihau'r cyfanswm o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu 21 y cant, ac yn fwy penodol gwnaethom leihau cyfanswm ein gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi 56 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hynny oherwydd prosesau gwell o ran didoli a gwahanu. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad cronnol o 60 y cant yn ôl llinell sylfaen 2010/11, ac ar hyn o bryd mae'n rhagori o bell ffordd ar ein targed o sicrhau gostyngiad blynyddol o 5 y cant.

– Mae cyfanswm y gwastraff ailgylchu cymysg (cardbord, papur, plastigion) wedi cynyddu 6.4 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hynny o ganlyniad i welliannau o ran ymwybyddiaeth defnyddwyr adeiladau a phrosesau didoli gan gontractwyr.

Dŵr

Bu cynnydd o 23 y cant yn y defnydd a wneir o ddŵr o'r prif gyflenwad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hynny o ganlyniad i ollyngiad ym mhibellau glanweithiol y Senedd, nad oedd wedi'i ganfod. O gronni'r ffigurau, mae ein defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad wedi cynyddu 26 y cant o ganlyniad i gynnydd bob blwyddyn ers 2010/11, gan olygu ei bod yn annhebygol y byddwn yn cyrraedd ein targed o leihau'r defnydd o ddŵr 10 y cant erbyn 2015.

– Gwnaethom lwyddo i gasglu dŵr glaw at ddibenion glanweithiol a golchi adeiladau, a oedd yn cyfateb i oddeutu 60% o anghenion dŵr y Senedd.

– Rydym wedi llwyddo i leihau ein defnydd o ddŵr yn Nhŷ Hywel 13 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i osod dyfeisiau arbed dŵr ar draws yr adeilad.

System Reoli Amgylcheddol

Defnyddir system reoli amgylcheddol ardystiedig y Cynulliad i reoli a lleihau'r effaith yr ydym yn ei chael ar yr amgylchedd, ac i gasglu a chofnodi pob darn o ddata amgylcheddol. Mae'r system hon yn cynorthwyo'r Strategaeth Lleihau Carbon, sy'n bennaf cyfrifol am ysgogi'r gwaith o leihau allyriadau carbon. Mae'r System Reoli Amgylcheddol hefyd yn ddull o sicrhau bod defnyddwyr adeiladau'n cymryd mwy o ran ac yn cynyddu'r graddau yr ystyrir egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws y Cynulliad.

Rydym yn parhau i wella rheolaethau mewnol, ansawdd a chywirdeb ein data drwy gyfrwng adolygiadau parhaus, archwiliadau mewnol ac allanol, ac asesiadau gwirio a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Ynghylch ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2012 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n berthnasol i'r DU yn unig. At ddibenion cysondeb, mae data'r flwyddyn bresennol a'r ddwy flynedd flaenorol wedi'u diweddaru â ffactorau cyfnewid 2012 er mwyn hwyluso cymariaethau cywir o ran perfformiad. Yn unol â chanllawiau Defra, ni chaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr eu cywiro i adlewyrchu ffactorau yn ymwneud â'r tywydd.

Bob blwyddyn, rydym yn ymdrechu i wella ansawdd a hygrededd y data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd drwy ddatblygu dulliau cadarn o gasglu data, er mwyn dangos ein hymrwymiad i gyflwyno adroddiadau clir ar yr holl ffyrdd yr ydym yn effeithio ar yr amgylchedd. Yn ystod 2011, roedd gwelliannau i'n systemau data yn golygu bod modd inni gynnwys teithiau ar fusnes gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad am y tro cyntaf. Nid oedd y data hyn ar gael mewn blynyddoedd blaenorol.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e)	Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 1	356	359	297	392
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 2	2,044	1,947	1,828	1,760
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 3	192	150	220	219
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth	2,646	2,636	2,664	2,688
	Cyfanswm yr allyriadau net	2,592	2,456	2,345	2,371
	Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth)	£0	£0	£0	£0
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Y defnydd o ynni[1]					

Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat)	Trydan (anadnewyddadwy)	3,927,779	3,635,741	3,365,188	3,229,531
	Nwy	1,882,864	1,563,475	1,217,226	1,753,785
	Biomas (adnewyddadwy)	164,220	480,480	885,500	866,688
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e)	Cyfanswm yr allyriadau ynni	2,393	2,182	1,977	2,006
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm y gwariant ar ynni[2]	465,457	400,433	452,090	465,444

Teithio swyddogol[3]					
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)	Teithio ar fusnes	667,683	505,254	848,275	883,932
	Ceir y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cheir wedi'u llogi	19,013	33,454	36,434	25,707
Dangosyddion ariannol (£) (tCO2e)	Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol	248,096	160,391	299,924	333,039

Gwastraff[4]					
Dangosyddion nad ydynt ariannol (tunelli)	Cyfanswm y gwastraff	53.56	133.48	152.93	120.4
	Wedi'i ailgylchu/wedi'i ailddefnyddio	38	90.18	112.83	100.55
	Tirlenwi	15.9	42.6	39.1	17.2
	Gwastraff wedi'i gompostio	7.36	8.56	14.18	11.3
	Gwastraff peryglus	0.10	0.10	0.05	0.29
	Papur a brynwyd (A4 ac A5) (fesul miliwn o ddalennau)	3.47	4.24	2.17	2.77
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar waredu gwastraff	5,183	15,511	26,689	24,000

Y defnydd o ddŵr[5]					
Dangosyddion nad ydynt ariannol (m3)	Y Defnydd o ddŵr				
	Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol)	7,918	7,446	7,669	9,406
	Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol)	747	737	788	2,407
	Tynnu dŵr (anuniongyrchol)	0	0	0	0
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar y cyflenwad a charthffosiaeth	23,805	20,780	22,777	24,122

Troednodiadau

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13.

Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig; maent yn cynnwys swyddfa Bae Colwyn, pan fo'r data ar gael.

Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad.

Caiff yr holl ddata ynghylch gweithrediadau eu trosi yn dunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol (tCO2e) at ddibenion adrodd. Mae CO2e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

01. Caiff amcangyfrifon o'r costau a'r defnydd o nwy a thrydan yn swyddfa Bae Colwyn eu cynnwys; maent wedi'u seilio ar filiau a lunnir drwy fesurydd, sydd wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng yr holl denantiaid.

02. Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010.

03. Mae'n cynnwys teithiau gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad o 2011/12 ymlaen a theithiau a brynwyd drwy'r cerdyn credyd corfforaethol.

04. Mae'r ffigurau ynghylch cyfanswm y gwastraff yn 2009/10 yn dangos chwe mis yn unig o ddata oedd ar gael. Mae'r data ynghylch gwastraff yn berthnasol i ystâd Bae Caerdydd yn unig.

05. Mae'r data ynghylch dŵr a gwastraff yn berthnasol i ystâd Bae Caerdydd yn unig.

Cyfrifon Adnoddau 2012-13

AGORWYD GAN EI MAWRHYD
ENHINES
OPENED BY HER MAJESTY TH
5·2006

Sylwadau rheoli

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy.

Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol. Gweler yr **Adroddiad Blynyddol**, sy'n rhoi rhagor o fanylion ac a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyfrifon hyn, i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Comisiwn wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth am y Cynulliad a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad: **www.cynulliadcymru.org** a **www.assemblywales.org**.

Hanes, cefndir statudol a'r prif weithgareddau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau bod gan y Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethu sydd eu hangen arno. Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd, sef y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a benodir gan y Cynulliad. Clerc y Cynulliad (a benodir o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Cyfeirir at ei staff, a benodir o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006, fel staff y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru ("Gweinidogion Cymru").

Mae'r Comisiwn yn darparu'r seilwaith, y cyflogau a'r lwfansau sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i ymgymryd â'u dyletswyddau yn adeiladau'r Cynulliad ym Mae Caerdydd (y Senedd a Thŷ Hywel) ac yn y swyddfeydd lleol. Mae'n darparu'r cyfleusterau a'r staff sy'n galluogi'r Cynulliad a'i bwyllgorau i gyfarfod, ac mae'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn ennyn eu diddordeb yn y broses honno. Diben y Comisiwn yw sicrhau bod y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

Gan adeiladu ar waith y tri Chynulliad blaenorol, mae'r strategaeth y cytunodd y Comisiynwyr arni ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad 2011–2016 yn pennu'r amcanion canlynol:

– Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– Ymgysylltu â phobl Cymru;

– Hyrwyddo Cymru; a

– Defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cynorthwyo â'i lwyddiant wrth ddarparu'r amcanion hyn, gweithredodd y Comisiwn mewn modd penodol drwy gydol y flwyddyn i gymeradwyo cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi.

Comisiwn y Cynulliad

Dyma'r Comisiynwyr yn ystod 2012-13:	**Cyfnod y penodiad**
Rosemary Butler AC Y Llywydd o fis Mai 2011	Etholwyd ar 11 Mai 2011
Bu Rosemary Butler i 14 cyfarfod o 14 o gyfarfodydd y Comisiwn.	
Peter Black AC	Ailbenodwyd ar 25 Mai 2011
Bu Peter Black i 14 cyfarfod o 14 o gyfarfodydd y Comisiwn.	
Angela Burns AC	Penodwyd ar 25 Mai 2011
Bu Angela Burns i 12 cyfarfod o 14 o gyfarfodydd y Comisiwn a phedwar cyfarfod o bump o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.	
Rhodri Glyn Thomas AC	Penodwyd ar 25 Mai 2011
Bu Rhodri Glyn Thomas i 9 cyfarfod o 14 o gyfarfodydd y Comisiwn.	
Sandy Mewies AC	Penodwyd ar 25 Mai 2011
Bu Sandy Mewies i 13 cyfarfod o 14 o gyfarfodydd y Comisiwn.	

Mae gan Gomisiynwyr gyfrifoldebau eraill yng nghyswllt y Cynulliad sy'n eu hatal rhag mynd i gyfarfodydd y Comisiwn o bryd i'w gilydd.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar drefniadau portffolio sy'n golygu bod gan y Comisiynwyr unigol gyfrifoldeb dros faterion penodol. Caiff y rhain eu hegluro'n llawn yn yr Adroddiad Blynyddol.

Cynghorwyr annibynol

Mae'r Comisiwn wedi penodi cynghorwyr i roi cyngor annibynnol, heriol ac adeiladol i Gomisiwn y Cynulliad drwy fynd i gyfarfodydd y Comisiwn(*) a thrwy fod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad(#), ac maent hefyd yn cyfrannu at agweddau eraill ar waith y Comisiwn:

Mair Barnes*
(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2013)

Richard Calvert#
(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2013)
Bu Richard Calvert i bum cyfarfod o bump o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

Eric Gregory#
(Tachwedd 2012 – Hydref 2015) *Bu Eric Gregory i ddau gyfarfod o ddau o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.*

Helena Feltham
(Tachwedd 2012- Hydref 2015)

Tim Knighton#
(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2012)
Bu Tim Knighton i dri chyfarfod o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

Yr Athro Robert Pickard#
(Tachwedd 2007 - Tachwedd 2012)
Bu Robert Pickard i bedwar cyfarfod o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

Keith Baldwin#
(Tachwedd 2012 – Hydref 2015) *Bu Keith Baldwin i un cyfarfod o ddau o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.*

Adolygiad o'r Flwyddyn Ariannol

Yn dilyn y refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2011, bellach mae'r Cynulliad yn gallu pasio deddfau ar bob pwnc yn yr 20 maes datganoledig heb angen cael cytundeb Senedd y DU yn gyntaf.

Mae'r newid cyfansoddiadol sylweddol hwn i'r Cynulliad yn dod â *Deddfau'r Cynulliad*, yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i rym. Cyflwynodd y Comisiwn nifer o newidiadau i gynorthwyo â'r datblygiad hwn. Roedd hynny'n cynnwys newidiadau i'w Reolau Sefydlog, rhoi strwythur newydd i'r pwyllgorau er mwyn cryfhau eu gwaith craffu ac integreiddio timau cymorth y pwyllgorau i roi cyngor arbenigol ar gefndir polisi, sefyllfa gyfreithiol a materion gweithdrefnol. Yn benodol, mae'r Rheolau Sefydlog newydd yn darparu ar gyfer rhagor o waith craffu gan bwyllgorau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol; mae dull Bil Preifat yn sicrhau bod Biliau o'r fath yn cael eu hystyried yng Nghaerdydd ac nid yn San Steffan; ac mae newidiadau i weithdrefnau'r Cyfarfod Llawn yn gwneud busnes y Cynulliad yn fwy ymatebol gyda chyfnodau o rybudd byrrach i gyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad.

Yn arwyddocaol, cafodd y Ddeddf gyntaf i'w phasio yng Nghymru ers y drydedd ganrif ar ddeg, sef Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd 2012.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi ceisio ffyrdd o wella ei wasanaethau i Aelodau'r Cynulliad. Mae'r dulliau newydd hyn o weithio yn cynnwys cynllun peilot i brofi dyfeisiau tabled, geirfa ddwyieithog o dermau arbenigol a thechnegol a gwaith briffio rhyngweithiol wedi ei deilwra i Aelodau'r Cynulliad. Yn y cyfamser, mae cymorth i Aelodau'r Cynulliad a'u staff drwy hyfforddiant yn parhau â nifer o gyrsiau wedi eu cynllunio i wella'r ymgysylltiad â phobl Cymru, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg, iaith arwyddion, rheoli argyfyngau, rheoli sefyllfaoedd cyhoeddus ac ysgrifennu areithiau. Yn ogystal, mae hyfforddiant i aelodau pwyllgorau wedi ei gynllunio i hwyluso ymgysylltiad â chynulleidfaoedd ehangach, datblygu sgiliau arbenigol mewn gwaith craffu ar faterion ariannol ac asesu effaith Biliau a pholisïau ar hawliau plant a phobl ifanc.

Cwblhaodd Dave Tosh, Cyfarwyddwr cyntaf TGCh y Comisiwn, y trefniadau ar gyfer y gwasanaethau TGCh a ddarperir yn y dyfodol. Roedd yn ofynnol cael achos busnes i werthuso'r opsiynau o ran darparu gwasanaethau a datblygu strategaeth TGCh y Comisiwn er mwyn gwneud hynny. Ym mis Rhagfyr 2012, daeth y Comisiwn i'r casgliad y byddai'n cynnal gwasanaethau TGCh craidd yn fewnol. Rhoddodd y Comisiwn wybod yn swyddogol i'w holl gontractwyr am ei fwriad i ddod â'r cytundeb presennol i ddarparu gwasanaethau TGCh y Cynulliad i ben. Bellach, mae gwaith yn mynd rhagddo i drawsnewid y gwasanaeth hwn.

Cafwyd ail gyfnod prosiect adnewyddu system TGCh y Senedd yn ystod y flwyddyn, gan uwchraddio i gael Microsoft Office 2010 yn y Siambr a chael cyfrifiaduron newydd yn lle hen rai ac adnewyddu elfennau o'r system bleidleisio a rheoli'r meicroffon. Dechreuwyd y prosiect tair blynedd hwn yn 2011 i ddiweddaru'r Siambr, yr ystafelloedd pwyllgora a'r ardaloedd cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y prosiect i gael rhwydwaith di-wifr ar draws y Comisiwn yn ogystal â gwaith i uwchraddio'r systemau clyweledol a PA.

Perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn

Mae'r Bwrdd Taliadau annibynnol yn gwneud penderfyniadau ar bob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, gan ystyried newidiadau yng nghyfrifoldebau gwaith Aelodau'r Cynulliad ac adolygu effeithiolrwydd ac effaith y system cymorth ariannol yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Comisiwn yn pennu tair ffynhonnell ariannu ar wahân. Mae un ar gyfer y gwariant sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, un ar gyfer gwariant a bennwyd gan y Bwrdd Taliadau, ac un i gynnwys y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau o dan y pennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn parhau i fod yn atebol am bob maes gwariant yn rhinwedd ei swydd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Yn erbyn cefndir parhaus o gyfyngu ar wariant y sector cyhoeddus, cymeradwyodd y Comisiwn strategaeth gyllid ar gyfer y pedwerydd Cynulliad sy'n cynnig gostyngiadau termau real o ran gwariant ond sy'n rhoi digon o adnoddau i ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf. Roedd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2012-13 yn cynnal y sefyllfa bresennol o ran cost y Comisiwn o'i gymharu â chyfanswm y gwariant cyhoeddus a reolir gan y Cynulliad Cenedlaethol (Bloc Cymru) ac mae'n parhau i gynrychioli 0.3% o Floc Cymru.

Caiff gwariant y Comisiwn ei ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru. Cyfanswm yr alldro adnoddau net ar gyfer 2012-13 oedd £47.1 miliwn (£46.2 miliwn yn 2011-12) o'i gymharu â chyllideb o £47.4 miliwn (£47.5 miliwn ar gyfer 2011-12). Yn erbyn y targed corfforaethol o danwariant o 2%, bu i'r Comisiwn danwario £0.332 miliwn neu 0.7% yn 2012-13.

Roedd cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, a oedd yn cynnwys lwfansau ar gyfer penodi staff a chael llety yn yr etholaeth/ardal i'w helpu i gyflawni'u dyletswyddau, yn costio £12.9 miliwn (£12.2 miliwn yn 2011-12).

Cost cyflogau staff sy'n cael eu cyflogi gan y Comisiwn, a'r costau cysylltiedig, oedd £14.7 miliwn (£14.0 miliwn yn 2011-12); cyfanswm y costau llety, TGCh a'r costau rhedeg eraill oedd £17.8 miliwn (£17.5 miliwn yn 2011-12); a chyfanswm incwm rhentu, derbyniadau am barcio ceir a gwerthiant nwyddau o Siop y Cynulliad oedd £0.2 miliwn (£0.2 miliwn yn 2011-12).

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys costau'n ymwneud â chyflog y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau na'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Y Comisiwn sy'n talu'r cyflogau hyn ond cânt eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn ôl statud. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn alldro adnoddau net y Comisiwn. Cyfanswm y costau hyn yn 2012-13 oedd £0.6 miliwn (£0.6 miliwn yn 2011-12).

Ar 31 Mawrth 2012, £60.0 miliwn oedd cyfanswm asedau net y Comisiwn (£63.5 miliwn ar 31 Mawrth 2012).

Gwerth am arian

Ers sefydlu ei bolisi gwerth am arian ym mis Medi 2011, mae'r Comisiwn wedi cyrraedd ei darged gwerth am arian yn llwyddiannus ym mhob blwyddyn o'r pedwerydd Cynulliad. Y llynedd, sef 2011-12, cyrhaeddodd y Comisiwn ei darged gwerth am arian o £0.3 miliwn a phennodd darged llawer yn uwch ar gyfer 2012-13, sef £0.5 miliwn. Cyflawnwyd hyn gydag arbedion drwy swydd rheoli wag (65%) a chynlluniau ymadael gwirfoddol (35%). Targed y Comisiwn ar gyfer 2013-14 yw £0.5 miliwn o hyd. Mae'r holl arbedion wedi eu hail-fuddsoddi o fewn y Comisiwn yn unol â'i raglen fuddsoddi tair blynedd.

Mae'r arbedion hyn yn allweddol i allu'r Comisiwn wrth sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn rhoi pwyslais sylweddol ar ei allu i wella'n barhaus wrth ei waith o ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf.

Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd y Comisiwn â KPMG i gael cymorth â'r gwaith o sefydlu'r rhaglen gwerth am arian. Gwnaed sawl darn allweddol o waith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

– adolygiadau o wasanaethau gyda rheolwyr cyllidebau a chyfweliadau â chyfarwyddwyr;

– gweithdai a digwyddiadau hyfforddi a amlygodd, ymysg pethau eraill, rwystrau rhag gweithredu'r rhaglen, gan wedyn nodi'n systemig sut i gael gwared ar y rhwystrau hynny;

– datblygu cynlluniau gweithredu yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ystod o fentrau gwerth am arian sydd ar waith.

Thema gwerth am arian	**Menter**	**Y flwyddyn ariannol berthnasol**
Gwella gwybodaeth reoli a symleiddio prosesau	Bydd y prosiect adnoddau dynol/y gyflogres yn darparu system fwy integredig a haws ei defnyddio a fydd yn gwella ac yn symleiddio ystod o brosesau; bydd yn sicrhau bod y wybodaeth reoli yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn well a bydd yn lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar brosesau gwaith llaw ac ymdrin â data.	O 2013-14 ymlaen
Symleiddio prosesau	Cynllunio aml-wasanaeth ar gyfer brandio a gwasanaethau cyfieithu i'w darparu ymhen cyfnodau byr gan sicrhau bod nifer y staff sydd ar gael yn cyd-fynd â'r amserlen heriol. Arweiniodd hyn at ostyngiad sylweddol mewn costau (40%). Mae Gwasanaethau eraill yn cynllunio dull o weithio tebyg.	2012-13 O 2013-14 ymlaen

Thema gwerth am arian	Menter	Y flwyddyn ariannol berthnasol
Gwneud y gorau o fanteision gwaith rheoli contractau	Mae'r penderfyniad i newid sut y mae rhaglen digwyddiadau'r haf yn cael ei gweithredu wedi arwain at fanteision dros sawl blwyddyn. Mae defnyddio'r bws arddangos wedi arwain at ostyngiad o 25% y flwyddyn mewn costau rhedeg; treblu nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt ac at arbedion mewn costau storio.	2010-11 i 2013-14
	Nododd adolygiad o ddarparwyr gwasanaethau i gael mynediad at y rhyngrwyd fod modd lleihau costau 48% y flwyddyn, a chael gwasanaeth gwell, drwy dalu cost gychwynnol.	O 2013-14 ymlaen

Yn ychwanegol at raglen gwerth am arian y Comisiwn, mae'r Bwrdd Taliadau wedi rhewi'r cyflog sylfaenol a lwfansau deiliaid swyddi i Aelodau'r Cynulliad tan 2015. Amcangyfrifir bod y weithred hon wedi lleihau costau hyd yma £0.2 miliwn pellach.

Materion amgylcheddol

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gall ei weithgarwch effeithio ar yr amgylchedd mewn modd cadarnhaol a negyddol yng Nghymru a thu hwnt. Yn ystod 2012-13, parhaodd y Comisiwn i weithredu ei bolisi amgylcheddol wedi ei fesur gan ei dargedau. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn a gyflawnwyd gennym yn yr Adroddiad Blynyddol.

Uwch-reolwyr a staff y Cynulliad

Dyma'r uwch-reolwyr (y Prif Weithredwr a'i Chyfarwyddwyr) a gyflogwyd gan y Comisiwn drwy gydol y flwyddyn tan y dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon:

Claire Clancy	Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Y Prif Swyddog Cyfrifyddu
Adrian Crompton	Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Dave Tosh	Cyfarwyddwr TGCh o 16 Ebrill 2012
Elisabeth Jones	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol o 8 Hydref 2012
Steven O'Donoghue	Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad ac â chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Cyllid o 1 Ebrill 2012
Keith Bush	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol tan 31 Hydref 2012
Dianne Bevan	Y Prif Swyddog Gweithredu tan 8 Awst 2012

Mae'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyflogau a hawliau pensiwn yr unigolion a enwir a'r costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd ganddynt am y flwyddyn. Caiff yr uwch-reolwyr eu penodi i'w swyddi'n barhaol.

Nifer y staff

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dyma'r nifer o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn:

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012
Staff a gyflogwyd	357.3	341.8
Staff ar secondiad	1.0	4.6

Buddsoddwyr mewn Pobl

Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio'r Safon Buddsoddwyr mewn Pobl fel fframwaith arfer gorau i feincnodi ei arferion a'i bolisïau ynghylch pobl. Bu'r aseswyr yn ailymweld â'r Comisiwn i asesu ein statws Safon Aur, a ddyfarnwyd yn wreiddiol yn 2010. Dyma'r ail waith inni gael cadarnhad ein bod wedi cyrraedd y Safon Aur, sef gwobr yr ydym yn hynod falch o'i chael.

Mae'r Comisiwn wedi cadarnhau ei fwriad i wneud arolygon staff bob naw mis. Mae'r arolygon staff hyd yma'n dangos bod dros hanner y staff yn eu llenwi a bod cynnydd o 10% yn nifer y staff sy'n argymell y Cynulliad fel lle gwych i weithio.

Perthynas â chyflogeion a chyfathrebu
Mae'r berthynas dda â'r Undebau llafur cydnabyddedig yn parhau. Yn ystod y flwyddyn, llofnodwyd cytundeb partneriaeth newydd rhwng y Comisiwn a'r Undebau llafur.

Mae'r Comisiwn wedi ail-lansio ei gylchgrawn mewnol (y Llechen) ac yn parhau i gynnal cyfarfodydd holl staff. Mae nifer o wasanaethau wedi adnewyddu eu cynnwys ar y fewnrwyd ac mae pob gwasanaeth yn adolygu cynlluniau eu gwasanaethau er mwyn cryfhau eu hymrwymiad i'r pum maes blaenoriaeth o ran newid, arloesi a buddsoddi.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad arweiniol o ran ein hymrwymiad i hybu cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a pharchu hawliau dynol yn ein gwaith fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd.

Ym mis Ebrill 2012, cyhoeddwyd ein **Cynllun Cydraddoldeb**, sy'n amlinellu ein gweledigaeth a'n strategaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Un o'n llwyddiannau wrth weithredu'r cynllun fydd bodloni'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb yn cynorthwyo'r gwaith hwn i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerth ac amrywiaeth ac i ganfod a dileu rhwystrau posibl i gydraddoldeb ar gyfer ein staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff hwy ac aelodau'r cyhoedd.

Dysgu a datblygu

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant o ddysgu lle mae sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad ein staff yn cael eu datblygu'n barhaus i ddarparu cymorth seneddol rhagorol. Drwy ddatblygu diwylliant o ddysgu'n barhaus, rydym yn datblygu gweithlu sy'n arbenigo mewn cefnogi busnes y Cynulliad ac sy'n hyblyg wrth ymateb i anghenion sy'n newid, a'u rhagweld.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, cefnogodd y tîm Dysgu a Datblygu dros 50 o secondiadau mewnol. Yn ogystal, rhoddodd y tîm gynllun prentisiaeth cyntaf y Comisiwn ar waith, llwyddodd i wella'r strategaeth lleoliadau i fyfyrwyr, gan ychwanegu lleoliadau i raddedigion, a threfnodd gyfleoedd i gysgodi'r Prif Weithredwr am ddiwrnod. Mae'r tîm yn parhau i gynorthwyo â newid mewn busnes yn y Comisiwn, darparu cyfleoedd hyfforddi a mentora, lle cafodd 15 o staff eu gwobrwyo â thystysgrif y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, yn ogystal â darparu'r rhaglen Arwain a Rheoli mewnol.

Iechyd a Diogelwch

Mae'r maes Iechyd a Diogelwch yn cynnwys yr elfennau ymarferol o sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, contractwyr ac ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd a Bae Colwyn. Mae hyn yn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n statudol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Yn ogystal â pharhau â hyfforddiant arbenigol (ar godi a chario, cymorth cyntaf yn y gweithle, diffibrilwyr a bod yn swyddog tân), cafwyd ymgyrchoedd llwyddiannus yn ystod y 12 mis diwethaf i godi ymwybyddiaeth o ganser yr ofari, canser y prostad, a phwysau gwaed. Yn ogystal, mae sesiynau iechyd galwedigaethol newydd i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn cael eu cynnal yn fisol, ochr yn ochr â chytuno ar gontract newydd o ran cymorth i gyflogeion a datblygu strategaeth iechyd a lles newydd ar gyfer y Comisiwn.

Data absenoldeb salwch

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol oherwydd salwch am y flwyddyn oedd 6.16 diwrnod gwaith cyfartalog fesul person, sef 2.80% (6.78 diwrnod gwaith, 3.08% yn 2011-12) o'i gymharu â'r targed am y flwyddyn o saith diwrnod gwaith y person.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

Digwyddiadau'n ymwneud â Data Personol

Yn 2012-13, ni fu unrhyw achosion o golli data personol lle'r oedd hi'n ofynnol rhoi gwybod yn swyddogol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ymchwiliwyd i ddau achos o fethiant agos o ran data personol, yn unol â pholisi'r Comisiwn, ond nid oedd angen gweithredu ynghylch un ohonynt.

O fis Mehefin 2012, trosglwyddwyd rôl yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth o'r Prif Swyddog Gweithredu i'r Cyfarwyddwr TGCh. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed adolygiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn yn y maes hwn. O ganlyniad, gwnaed sawl gwelliant i'r polisi a'r dogfennau ategol.

Polisi talu credydwyr

Ers 2009, targed y Comisiwn yw talu pob credydwr (cyflenwyr, Aelodau a chyflogeion) cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl i'r anfonebau ddod i law, os nad oedd anghydfod yn eu cylch. Ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn, talwyd 98.3% cyn pen 10 niwrnod (96.7% ar gyfartaledd yn 2011-12).

Archwilio'r Cyfrifon

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag Adran 137 o Ddeddf 2006. Y gost y cytunwyd arni ar gyfer archwilio cyfrifon 2012-13 yw £60,250 (£59,450 yn 2011-12).

Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

Digwyddiadau ers diwedd y cyfnod ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y cyfnod ariannol a'r dyddiad y cwblhawyd y cyfrifon hyn.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 8 Gorffennaf 2013

Yr Adroddiad Taliadau

Y Polisi Taliadau

Mae'r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd), a sefydlwyd gan Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, yn gyfrifol am bennu Cyflogau a Lwfansau Aelodau. Daeth y Bwrdd yn weithredol ym mis Medi 2010. Mae pedwar aelod y Bwrdd, sef Sandy Blair CBE, Mary Carter, Stuart Castledine, a'r Athro Monojit Chatterji, yn cael £185 y diwrnod ac mae'r Gwir Anrhydeddus Syr George Reid, Cadeirydd y Bwrdd, yn cael £243 y diwrnod. Cânt eu penodi am dymor o bum mlynedd.

Cyhoeddwyd adroddiad y Bwrdd, **Addas i'r Diben**, ym mis Mawrth 2011, a ddaeth i'r casgliad y dylai'r cyflog o £53,852 a bennwyd ar gyfer 2010-11 barhau am bedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Cadarnhawyd y lefel hon o gyflog yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau. Roedd y diwethaf ym mis Rhagfyr 2012. Penderfynodd pedwar Aelod i beidio â chymryd eu tâl llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 (pedwar Aelod yn 2011-12).

Roedd hawl gan yr Aelodau canlynol ar gyflogau blynyddol ychwanegol:

	O: 1 Ebrill 2012	O: 1 Ebrill 2011
Y Llywydd	£41,949	£41,949
Y Dirprwy Lywydd	£26,385	£26,385
Comisiynwyr y Cynulliad	£12,420	£12,420
Cadeiryddion y pwyllgorau[1]	£12,420	£12,420
Cadeiryddion pwyllgorau eraill[2]	£8,280	£8,280

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

O fis Ebrill 2011, bydd Arweinydd y grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £12,420 a £1,000 ychwanegol am bob Aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £41,949. O ganlyniad, amrediad lwfans deiliad swydd yw £17,420 - £26,420.

Dechreuodd swydd newydd Rheolwyr Busnes ar gyfer grwpiau gwleidyddol o fis Ebrill 2011. Mae Rheolwyr Busnes yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £6,210 a £250 am bob Aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £12,420. O ganlyniad, amrediad lwfans deiliad swydd yw £7,460 - £12,420.

O blith yr Aelodau sydd â hawl i gael cyflogau ychwanegol yn 2012-13: ni chymerodd 16 ohonynt y cwbl yr oedd ganddynt hawl amdano am y flwyddyn. (Yn 2011-12 hefyd, ni chymerodd 16 Aelod y cwbl yr oedd ganddynt hawl iddo am y flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau.

[1] Y Pwyllgorau oedd: Plant a Phobl Ifanc; Amgylchedd a Chynaliadwyedd; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol; Menter a Busnes; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Cyllid; Cyfrifon Cyhoeddus.
[2] Y Pwyllgorau eraill oedd: Deisebau; Safonau Ymddygiad

Mae Aelodau'r Cynulliad yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chaiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar wahân ar gyfer y cynllun hwn ar wefan y Cynulliad **www.cynulliadcymru.org**.

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, a chaiff y rhain eu codi ar gyfrifon adnoddau y Comisiwn at ddibenion effeithlonrwydd gweinyddol. Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys y wybodaeth ddatgelu.

Daeth penodiad dau o'r pedwar o'r cynghorwyr annibynnol i'r Comisiwn a wnaed ym mis Tachwedd 2007 i ben ym mis Tachwedd 2012. O ganlyniad, cafwyd tri phenodiad newydd ym mis Tachwedd 2012 am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Caiff penodiad arall ei wneud yn 2013-14, gan ddychwelyd y nifer o gynghorwyr annibynnol i bedwar. Mae'r cynghorwyr yn cael tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn (£7,000 y flwyddyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio).

Y Pwyllgor Taliadau

Mae gan y Comisiwn Bwyllgor Taliadau sy'n cynnwys pedwar aelod annibynnol, sy'n cynorthwyo'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd yn y modd y defnyddir arian cyhoeddus ac, yn benodol, yn ein polisïau a'n systemau arfarnu a thalu.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 oedd:

– Tony Morgan - Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau (ei benodiad yn ymestyn tan fis Ionawr 2014). Mae'n cael tâl amhensiynadwy o £1,250 y flwyddyn.

– Tim Knighton (Cynghorwr Annibynnol) tan fis Tachwedd 2012

– Yr Athro Robert Pickard (Cynghorwr Annibynnol) tan fis Tachwedd 2012

– Keith Baldwin (Cynghorwr Annibynnol) o fis Mawrth 2013

– Helena Feltham (Cynghorwr Annibynnol) o fis Mawrth 2013

– Eric Gregory (Cynghorwr Annibynnol) o fis Mawrth 2013

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor unwaith ar 19 Ebrill 2012, roedd pob aelod cyfredol yn bresennol, a buont yn ystyried y Strategaeth Gwobrwyo Drafft ar gyfer staff y Cynulliad, adolygodd dâl a pherfformiad y Tîm Gweithredol ac ystyriodd bolisi'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol er mwyn sicrhau bod ei gyngor yn ystyriol o'r cyd-destun ehangach hwn.

Contractau gwasanaeth

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Darperir hefyd ar gyfer amgylchiadau lle ceir penodi heb ddilyn y drefn arferol. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r Gwasanaeth Sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Oni nodir yn wahanol isod, mae staff y Cynulliad y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil.

Cyflogau a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau a phensiynau deiliaid swyddi ac uwch-swyddogion. Cânt eu cyflwyno yn ôl bandiau cyflog a phensiwn.

Mae gan Gomisiynwyr y Cynulliad, ac eithrio'r Llywydd, hawl ar gyflog blynyddol o £12,420 yn ychwanegol at eu cyflog fel Aelodau'r Cynulliad. Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Nid oes modd gwahanu'u pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr oddi wrth y cyfanswm a gronnwyd.

Enw a theitl	Cyflog 2012-13 £'000	Cyflog 2011-12 £'000	Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig pan fyddant yn 65 oed £'000	Cyfanswm y pensiwn cronedig pan fyddant yn 65 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31/3/12 £'000	CETV ar 31/3/13 £'000	CETV ar 31/3/12 wedi'i ailddatgan £'000	Gwir gynnydd mewn CETV wedi'i ailddatgan £'000
Deiliaid swyddi							
Rosemary Butler AC – *Y Llywydd)*	95-100	80-85	1.5-2.0	20-25	402	374	28
David Melding AC –Y Dirprwy Lywydd (dechreuodd ar 12/5/2011)	80-85	70-75	1.5-2.0	15-20	311	271	40

Uwch-reolwyr

Enw a theitl	Cyflog 2012-13	Cyflog 2011-12	Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig pan fyddant yn 60 oed	Cyfanswm y pensiwn cronedig pan fyddant yn 60 oed a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31/3/12	CETV ar 31/3/13	CETV ar 31/3/12	Gwir gynnydd mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad							
Claire Clancy	140-145	135-140	2.5-3.0 a chyfandaliad o 5-10	62-65 a chyfandaliad o 185-190	1,228*	1,114*	52
Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad							
Adrian Crompton	110-115	105-110	2-2.5 a chyfandaliad o 5-10	30-35 a chyfandaliad o 100-105	536	479*	28
Cyfarwyddwr TGCh, penodwyd ar 16 Ebrill 2012							
Dave Tosh	80-85	Amherthnasol	20-22.5	20-25 i'w dalu pan fydd yn 65 oed	254	0*	40
Penodwyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn lle Keith Bush ar 8 Hydref 2012							
Elisabeth Jones	45-50	Amherthnasol	2.5-5.0	20-25	369	315*	34
Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a enwebwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid o 1 Ebrill 2012							
Steven O'Donoghue	65-70	Amherthnasol	0-2.5	25-30	299	271*	10
Prif Swyddog Gweithredu; daeth y penodiad i ben ar 8 Awst 2012							
Dianne Bevan	40-45	115-120	5-7.5	60-65	1,050	941*	103
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol; daeth y penodiad i ben ar 31 Hydref 2012 a phenodwyd Elisabeth Jones yn ei le							
Keith Bush	60-65	95-100	2.5-5.0	25-30	464	382*	82

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

* Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo ffigurau CETV yn 2011/12. Mae'r ffigurau CETV ar 31/03/2012 a 31/03/2013 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Mae'r CETV ar 31/03/2012 felly'n wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

Gadawodd Dianne Bevan y Cynulliad o dan y telerau Ymadael yn Wirfoddol ar 8 Awst 2012. Cafodd daliad iawndal o £187,662 a gronnwyd yng nghyfrifon 2011-12.

Cyflog

Cyflog yw'r swm a enillwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae'n cynnwys yr holl daliadau sy'n ddyledus. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu Flwydd-daliad y Cyflogwr. Nid oes unrhyw fuddion ar ffurf nwyddau na bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2012-13 (dim yn 2011-12). Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

	2012-2013 **Cyflog £'000**	**2011-2012** **Cyflog £'000**
Band y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf	140-145	135-140
	£	£
Cyfanswm canolrifol y Taliadau	27,897	27,897
Cymhareb	4.8	4.8

Y cysylltiad rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn y sefydliad a thaliad canolrifol y gweithlu yw 4.8. Mae hyn wedi aros yr un fath ers 2011-12.

Band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2012-13 oedd £140k-£145k (£135k -£140k yn 2011-12). Roedd hyn 4.8 gwaith (4.8 yn 2011-12) taliad canolrifol y gweithlu, sef £28k (£28k yn 2011-12).

Yn 2012-13, ac yn 2011-12, ni wnaed unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £12k i £145k

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu penodiad presennol fel Gweinidogion. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

Gwir gynnydd mewn CETV

Dyma'r elfen o'r cynnydd yn y pensiwn cronedig a ariennir gan y Comisiwn. Nid yw'n cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau sy'n cael eu talu gan yr Aelod (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

Teithio a chynhaliaeth

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd diwethaf:

Enw	Teitl	Costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd	Costau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd
		2012-13	2011-12
		£	£
Claire Clancy	**Prif Weithredwr a Chlerc**	619	799
Adrian Crompton	**Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**	2,909	581
Dave Tosh	**Cyfarwyddwr TGCh**	1,307	Amherthnasol
Elisabeth Jones	**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**	1,075	Amherthnasol
Steven O'Donoghue	**Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid**	692	Amherthnasol
Dianne Bevan	**Prif Swyddog Gweithredu**	463	1,084
Keith Bush	**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**	411	Amherthnasol

Roedd y tabl hwn yn destun archwiliad

** Mae rhagor o wybodaeth am y ffigurau hyn yn y nodiadau yn y cyfrifon.

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn i staff y Cynulliad drwy drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelod o un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu gynllun gyrfa gyfan (**nuvos**). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Gall yr aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau sy'n dechrau ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer cynllun **classic** a 3.5% ar gyfer cynlluniau **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Fodd bynnag, mae'r cyfraniadau o 1 Ebrill 2012 wedi cynyddu ac wedi eu pennu yn ôl band cyflog. Bydd cynnydd pellach o 1 Ebrill 2013 a disgwylir y bydd cynnydd pellach o 1 Ebrill 2014. Mae buddion yng nghynllun **classic** yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â'r tair blynedd cyntaf o

bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yng nghynllun **premium** yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw cynllun **classic plus** gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yng nghynllun **classic** ac mae'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo fel y gwneir yng nghynllun **premium**. Gyda chynllun **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bu'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3% o gyflog pensiynadwy aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 7% a 15% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau **classic**, **premium** a **classic plus** yw 60, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun **nuvos**.

Cewch ragor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar wefan **www.civilservice-pensions.gov.uk**

Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, drwy rinwedd Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan y Trysorlys a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau ac maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion, y datganiad o wariant net cynhwysfawr, y datganiad o'r sefyllfa ariannol, llif arian a'r datganiad o'r newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 8 Gorffennaf 2013

Datganiad Llywodraethu 2012-13

Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r sail y cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu arno; y ffordd y caiff ei lywodraethu a'i reoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud.

Rôl y Comisiwn

01. Cafodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu fel corff corfforaethol o dan Adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ei brif rôl yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad, neu sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu ar ei gyfer. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei faterion, hwyluso'r dull o arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a rheoli risg.

Diben y fframwaith llywodraethu

02. Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'r gweithgarwch sy'n ei wneud yn atebol i'r Cynulliad a phobl Cymru ac sy'n ei ymgysylltu â hwy. Mae'n galluogi'r Comisiwn i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau costeffeithiol a phriodol.

03. Mae'r system rheoli mewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i cynlluniwyd i reoli risg hyd at lefel resymol. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i ganfod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau a nodau ac amcanion y Comisiwn, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac mewn modd darbodus. Ni all y system rheoli mewnol ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly ni all ond rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd ac nid sicrwydd llwyr.

04. Bu'r fframwaith llywodraethu ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Y fframwaith llywodraethu

05. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Aelod Cynulliad arall a benodwyd gan y Cynulliad. Ei Brif Swyddog Cyfrifyddu yw Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Cynulliad.

06. Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Cynulliad. Ymhlith cyfrifoldebau'r Comisiynwyr fel "bwrdd llywodraethu" mae gosod nodau strategol y sefydliad, darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith, goruchwylio'r ffordd y caiff y nodau strategol hynny eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau a bod yn atebol i'r Cynulliad o ran eu stiwardiaeth.

07. Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl etholiad mis Mai 2011, mabwysiadodd y Comisiwn egwyddorion llywodraethu diwygiedig a darpariaethau ategol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus gan ystyried statws y Comisiwn yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae nifer o'r polisïau sy'n rheoli gwaith y sefydliad a'i ymddygiadau yn sail i'r egwyddorion a'r darpariaethau hyn.

08. Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio sy'n cynnwys tri chynghorywr annibynnol profiadol, gydag un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, a Chomisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am y gyllideb a llywodraethu. Mae'r Pwyllgor hwn yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio'r Trysorlys. Ochr yn ochr â'r Pwyllgor Archwilio, rhoddir sicrwydd drwy broses archwilio mewnol y Comisiwn, o dan arweiniad Pennaeth yr adran Archwilio Mewnol, gyda chymorth contract â KPMG.

09. Mae'r Comisiwn hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Taliadau, sef corff cynghori nad oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol i ystyried a gwneud argymhellion ar faterion yn ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Prif Weithredwr). Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar unrhyw argymhellion neu gynigion gan y Prif Weithredwr ynghylch cyflogau a materion eraill yn ymwneud â thaliadau a gwobrwyon i'r Cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried argymhellion a chynigion ar y strategaeth tâl a gwobrwyon ar gyfer staff eraill Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd o ran defnyddio cronfeydd cyhoeddus gan gynghori'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu, yn ôl y gofyn, ar eu cyfrifoldebau o ran polisïau a systemau arfarnu a thaliadau.

10. Ceir manylion am gyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad, y Pwyllgor Taliadau a Phwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad a chofnod o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn yr Adroddiad Blynyddol y mae'r datganiad hwn yn rhan ohono.

11. Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, mabwysiadodd y Comisiwn y nodau strategol canlynol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad (2011-16):

- ***Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf***
  Mae'r Cynulliad mewn sefyllfa gyfansoddiadol newydd, a byddwn yn cynnig cefnogaeth briodol i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gynrychioli Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

- ***Ymgysylltu â phobl Cymru***
  Byddwn yn creu amgylchedd sy'n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad ac sy'n hwyluso pobl i ymgysylltu â swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli'r Cynulliad. Byddwn yn ymgysylltu'n frwd ac eang, ac yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael budd o'r egni creadigol sy'n deillio o'r ymgysylltiad hwnnw.

- ***Hyrwyddo Cymru***
  Drwy weithio fel llysgennad i Gymru dros y byd, byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, a chwarae ein rhan yn natblygiad democratiaeth seneddol mewn gwledydd eraill dros y byd.

- ***Defnyddio adnoddau'n ddoeth***
  Byddwn yn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau llawn i weithredu'n effeithiol fel senedd sydd â phwerau deddfu newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn atgyfnerthu hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau drwy wneud defnydd da o arian y trethdalwr. Byddwn yn rheoli ein hadnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd fwy effeithlon a chan gynnig gwell gwerth am arian.

12. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Comisiwn am gyflawni'r nodau strategol. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, hi sy'n atebol i'r Cynulliad am drefn ac ansawdd gwaith rheoli yng Nghomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Wrth weithio i gyflawni nodau'r Comisiwn, disgwylir i'r staff:

- weithredu gydag uniondeb a thegwch a bod yn ddiduedd, gan ddangos parch at bawb a thrin pawb yn gyfartal;
- cryfhau ethos dwyieithog y Cynulliad;
- darparu pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn yn gyflym, gydag arbenigedd proffesiynol ac ethos gwasanaeth cadarn;
- gosod safonau uchel a chadw eu haddewidion;
- bod yn agored a thryloyw, gwneud eu hunain yn agored i waith craffu manwl o bob tu, a darparu tystiolaeth y gellir ei mesur o'r hyn a gyflawnwyd;
- buddsoddi mewn cynaliadwyedd a thechnoleg i wella effeithlonrwydd; a
- dangos eu hymrwymiad llawn i ddemocratiaeth seneddol yng Nghymru a'u balchder yn y Cynulliad.

13. Mae bodolaeth y Bwrdd Taliadau, sy'n annibynnol yn unol â statud, ac sydd â chyfrifoldeb am bennu cyflogau, pensiynau a chymorth ariannol i Aelodau a'u staff, yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn sylweddol. Mae diffyg beirniadaeth o'r tu allan o'r trefniadau ariannol o ran Aelodau, ac archwiliadau cadarn cyson y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, yn dystiolaeth o'i effeithiolrwydd. Yn yr un modd, mae'r ffaith bod Comisiynydd Safonau annibynnol yn rhoi lefel uchel o sicrwydd o ran ymddygiad Aelodau a'r drefn safonau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiynydd, y Pwyllgor Safonau a'r Llywydd oll wedi cymryd camau i gryfhau trefn safonau'r Cynulliad.

Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

14. Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i gyfarwyddo a goruchwylio prosesau gweithio. Yn ystod 2012-13, penderfynodd y Comisiwn gwrdd yn amlach ac i neilltuo rhai cyfarfodydd ar gyfer trafod un mater strategol, a gweddill y cyfarfodydd i adolygu perfformiad. Yn achos y ddau fath o gyfarfod, caiff papurau eu cyflwyno mewn fformat clir a chryno sy'n nodi'r risgiau a'r materion, y cefndir, trafodaeth o'r dewisiadau sydd ar gael, goblygiadau o ran adnoddau, y camau nesaf a'r penderfyniad y mae angen i'r Comisiwn ei wneud. Hefyd, rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Comisiynwyr ynghylch alldro ariannol ac adroddiadau sy'n nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

15. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau i'r Prif Weithredwr ac eithrio:

- penodi'r Prif Weithredwr a'r Clerc, cynghorwyr anweithredol y Comisiwn, ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio, a phennu eu telerau a'u hamodau a'u taliadau; ac
- awdurdodi gwariant o dan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 (rhoi cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol).

16. Mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr hefyd ymgynghori â'r Comisiwn cyn:

- penodi swyddi ar lefel y Cyfarwyddwyr;
- newid y taliadau a'r telerau ac amodau ar gyfer y staff sydd yn y swyddi hynny;
- creu swyddi cyfarwyddwyr newydd neu ddiddymu swyddi cyfarwyddwyr presennol;
- awdurdodi gwariant cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n werth mwy nag £1 filiwn; ac
- awdurdodi gwariant ar faterion y gellid eu hystyried yn newydd neu'n ddadleuol.

17. Caiff y dull o ddarparu gwasanaethau o fewn y Comisiwn ei reoli drwy dair Cyfarwyddiaeth (Busnes y Cynulliad, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cyfreithiol), a thri maes gwasanaeth (Adnoddau, Ystadau a Chyswllt Cyntaf, a Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau.) Mae'r rhain i gyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

18. Mae'r **Bwrdd Rheoli** yn cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cydgysylltu polisi a materion gweithredol sy'n ymwneud â darparu'r holl wasanaethau o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf bob mis ac yn anffurfiol bob wythnos i adolygu a chydgysylltu gweithgareddau. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu mewn modd corfforaethol er budd y Cynulliad cyfan.

19. Mae datblygiad yn y Cynulliad wedi ei gryfhau drwy sefydlu'r **Bwrdd Buddsoddi** sy'n rhoi golwg strategol a chorfforaethol ar yr holl opsiynau buddsoddi cyfalaf ac mae'n goruchwylio'r modd y mae prosiectau buddsoddi yn cael eu rheoli a'u cyflawni. Mae'n sicrhau bod gwaith craffu priodol yn cael ei wneud ar fuddsoddiadau cyfalaf yn y Cynulliad a'i fod wedi ei reoli a'i flaenoriaethu'n briodol hefyd. Mae'r dull hwn o weithio wedi bod ar waith ers canol 2012 ac mae eisoes wedi arwain at welliant mewn ansawdd brîff prosiectau, gwaith dadansoddi opsiynau ac asesu risg. Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, y Cyfarwyddwr TGCh a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn fach ac mae'n cyfarfod bob pythefnos er mwyn sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau pan fydd eu hangen.

20. Mae'r **broses o wneud penderfyniadau a rheoli busnes yn y Cyfarwyddiaethau a'r meysydd Gwasanaeth** wedi eu cydgysylltu yn ystod y flwyddyn drwy drefniadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae Cyfarwyddwyr y Cynulliad yn mynychu rhai o gyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau yn cael eu darparu i'r Cynulliad.

21. O fewn Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, mae Penaethiaid y Gwasanaethau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio a chydgysylltu'r modd y mae busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal a'i gefnogi i fodloni gofynion yr Aelodau.

22. Mae gan y Cyfarwyddiaethau a Gwasanaethau eraill drefniadau tebyg i sicrhau bod y gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi gwaith y Cynulliad a'i Aelodau yn cael eu rheoli a'u darparu yn y modd mwyaf effeithiol.

23. Caiff y broses o **reoli arian** ei rheoli drwy system o gyllidebau dirprwyedig gyda rheolaeth dros rai gweithgareddau wedi'i gryfhau a'i gydgysylltu gan dimau cymorth canolog. Mae'r Bwrdd Rheoli'n adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau bob mis a chaiff hyn ei gefnogi gan gyfarfodydd rheolaidd rhwng staff Cyllid a deiliaid cyllidebau. Mae'r gwaith o ragweld cyllidebau wedi gwella'n fawr yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, yn dilyn cynnydd mewn hyfforddiant i staff ar ddulliau cyllidebu i'w helpu i ddeall effaith eu penderfyniadau ar ragolygon.

24. Caiff y broses reoli ei chefnogi ymhellach gan **y tîm Llywodraethu ac Archwilio** a sefydlwyd i gryfhau a chydgysylltu'r broses gaffael, rheoli risg, archwiliadau mewnol a'r Rhaglen Fuddsoddi. Mae'r tîm hefyd yn cynghori ar reoli prosiectau.

Perfformiad

25. Yn ystod ail flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad, mae Comisiwn y Cynulliad wedi datblygu ar y seiliau a osodwyd ar ôl yr etholiad. Ar y cyfan, mae gan staff lefelau uchel o broffesiynoldeb ac arbenigedd, ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion llywodraethu a'u gweithredu. Wrth i waith y Cynulliad newydd ddatblygu, bu cynnydd sylweddol yn y ddeddfwriaeth yr oedd angen ei hystyried, ac mae staff yn y Comisiwn wedi canolbwyntio eu hymdrechion yn unol â hynny. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar glercod, ymchwilwyr a chyfreithwyr. Bodlonwyd y Rheol Sefydlog perthnasol a'r dyddiadau cau mewnol i gefnogi'r broses ddeddfu ac mae'r adborth gan Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn gadarnhaol.

26. Fel rhan o waith cynllunio i sicrhau bod adnoddau'n bodloni'r galw, bu ffocws ar nodi blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ac ar ddatblygu dangosyddion i fesur a dangos perfformiad wrth weithredu'r rhain. Ochr yn ochr â hyn, mae'r **Gyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad** wedi bod yn edrych ar ffyrdd arloesol o ymgysylltu â phobl Cymru ynghylch deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Gyfarwyddiaeth wedi adolygu'r ffordd y caiff y Pwyllgorau eu cynorthwyo, ac mae wedi dechrau ar broses ad-drefnu allweddol yn hynny o beth.

27. Mae'r Gwasanaeth **Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau** wedi cryfhau ei rôl wrth ddarparu'r cyswllt rhwng Aelodau a'r Comisiwn ac y mae wedi parhau i ddatblygu ei raglen o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i Aelodau.

28. O ran **TGCh** mae'r Comisiwn wedi gwneud penderfyniad strategol i dynnu'n ôl o gontract 'Merlin' ag Atos, y darparwr gwasanaeth presennol, ac i ddarparu cefnogaeth i wasanaethau

TGCh yn uniongyrchol drwy ddefnyddio ei staff ei hun. Mae hyn yn ddatblygiad allweddol i'r Cynulliad, a gwnaeth y Comisiwn y penderfyniad gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy hyblyg ac ymatebol i Aelodau ac er mwyn defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn hefyd wedi gwella ei seilwaith TGCh yn sylweddol, gan gynnwys adnewyddu'r systemau yn y Siambr i roi mwy o sefydlogrwydd iddo ac i wella pa mor ymarferol ydyw i'w ddefnyddio. Mae'r Comisiwn hefyd wedi llunio Strategaeth TGCh gwbl ddiwygiedig, sy'n nodi cyfeiriad datblygiadadau ym maes TGCh yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo anghenion y Cynulliad a'i Aelodau yn well.

29. Mae'r gwaith o reoli diogelwch ar **yr ystâd** wedi gwella yn ystod y flwyddyn gyda phenodiad dau berson allweddol i gynorthwyo'r Pennaeth Diogelwch. Mae'r gwaith o reoli'r ystâd wedi gwella ymhellach gyda phenodiad Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf newydd. Bellach, mae'r gwaith cynllunio i baratio ar gyfer adeiladu mynedfa newydd dan do i Dŷ Hywel wedi cychwyn, a bydd hynny'n gwella'r profiad i ymwelwyr ac yn ychwanegu at ddiogelwch yr adeilad.

30. Yn ystod hydref 2012, cafwyd buddugoliaeth yn y Goruchaf Lys wedi i Lywodraeth y DU herio'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru).

31. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiwn **adolygiad o'i effeithiolrwydd**. Llywiwyd y gwaith hwn, a seiliwyd ar astudiaeth gan gynghorwr Llywodraethu Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad, gan drafodaethau â Chomisiynwyr a nifer o unigolion eraill. Yn gyffredinol, roedd y casgliadau'n ffafriol iawn ac yn amlygu'r ffaith bod cryn dipyn o gynnydd wedi'i wneud hyd yma yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Roedd y Comisiynwyr wedi dod yn fwyfwy bodlon ar safon y wybodaeth a'r cymorth a roddir iddynt ar gyfer cyfarfodydd ac yn eu swyddi portffolio. Roeddent o'r farn bod y gwerthusiadau o ddewisiadau a gyflwynwyd iddynt wedi dod yn fwy cadarn a bod y modd y cyflwynwyd cyllideb 2012-13 wedi alinio adnoddau â blaenoriaehau strategol yn briodol. Nodwyd rhai meysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach, gan gynnwys yr angen i ystyried materion strategol ac i asesu perfformiad. Roedd y Comisiynwyr hefyd yn gefnogol iawn o'r argymhelliad y dylid mabwysiadu ymagwedd mwy cadarnhaol a rhagweithiol tuag at y cyfryngau.

32. Cyfarfu'r **Pwyllgor Taliadau** ym mis Ebrill 2012 i gwblhau'r gwaith y mae wedi ei wneud ar strategaeth y Comisiwn ar gyflogau a gwobrwyo yn 2011-12. Mae'r cytundeb cyflogau a gytunwyd â'r undebau yn ymestyn am 18 mis gan ddechrau ym mis Ebrill 2012.

33. Cyfarfu **Pwyllgor Archwilio** Comisiwn y Cynulliad bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Rôl gynghorol sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad, adroddiadau ar reoli risg, a'r trefniadau llywodraethu a rheoli mewnol. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau archwilio. Roedd y rhain yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o ran Llywodraethu Diogelwch Gwybodaeth a Diogelu Data a gan Bennaeth Caffael Comisiwn y Cynulliad.

34. Mae'r ffocws o ran **Archwilio Mewnol** eleni wedi bod ar gyfuno'r rhaglen helaeth o adolygiadau a wnaed yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a gwnaed llawer o ymdrech eleni ar adolygiadau yn dilyn hynny. Ochr yn ochr â hynny, roedd y broses o Archwilio Mewnol yn ymwneud â rhoi sicrwydd o ran gwaith y Bwrdd Buddsoddi ac, yn benodol, y gwaith o reoli

dau brosiect mawr, sef rhaglen dyfodol TGCh a system newydd y gyflogres ac adnoddau dynol, sydd wedi ei chyfuno.

Cydymffurfio

35. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cydymffurfio â'r egwyddorion llywodraethu a'r darpariaethau ategol y cytunwyd arnynt.

Nodi a rheoli risg

36. Mae'r system rheoli mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i ganfod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau a nodau ac amcanion y Comisiwn, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny yn cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus.

37. Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn floc sylfaenol allweddol yn system rheoli mewnol y Comisiwn ac yn ei drefniadau llywodraethu corfforaethol. Caiff ei ddeall a'i ddefnyddio'n helaeth drwy'r sefydliad, gydag enghreifftiau o ffyrdd effeithiol o reoli risg a chyflawni cyfleoedd i'w gweld ar lefelau gweithredol a strategol ac ar lefelau rhaglenni a phrosiectau.

38. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i addasu ein dull o weithio syml o ran rheoli risg, ac o ganlyniad i'n haeddfedrwydd wrth wneud hynny, mae rhagor o risgiau bellach yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth. Mae hyn wedi sicrhau ffocws mwy cynhwysfawr ac amserol ar y risgiau allweddol. Dyma brif elfennau'r dull o ymdrin â risgiau:

- fforwm rheoli risg (sy'n cynnwys Hyrwyddwyr Risg o bob maes gwasanaeth) sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod ac adolygu risgiau a phrosesau ac sy'n codi ymwybyddiaeth ar draws y Cynulliad;
- eglurdeb o ran atebolrwydd dros ganfod a rheoli risgiau;
- adolygu newidiadau a phob achos o risg ac adrodd arnynt yn rheolaidd;
- adolygiadau trylwyr y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio o risgiau corfforaethol unigol; a
- rhoi risgiau sylweddol o dan ofal y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad yn ôl yr angen.

39. Mae rheolaethau mewnol yn rheoli holl weithgarwch y sefydliad, o recriwtio staff, cefnogi busnes y Cynulliad, gwneud penderfyniadau, a rheoli a chyflwyno adroddiadau ar y cronfeydd cyhoeddus y mae'r sefydliad yn eu defnyddio.

40. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom fonitro'n ofalus y risgiau y gwnaethom eu hwynebu wrth gyflawni nodau strategol y Cynulliad. Mae'r risgiau a'r camau i'w lleddfu wedi datblygu yn ystod y cyfnod i ymateb i'n hanghenion a'n hamgylchiadau. Yn ogystal, rydym wedi canfod a rhannu gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i faterion sydd wedi codi, ac rydym wedi addasu ein hymatebion a'n cynlluniau parhad ar sail hynny.

41. Mae'r meysydd yr ydym wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn o ran ein risgiau corfforaethol wedi ymwneud â gwasanaethau TGCh yn y dyfodol, risgiau allweddol o ran enw da a gwybodaeth, risgiau ymarferol a risgiau diogelwch personél. Roedd y gostyngiad mewn risgiau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r rhai ynghylch yr etholiad yn 2011 - materion yn ymwneud ag Aelodau yn gadael a chynefino'r Aelodau newydd a etholwyd.

Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg

42. Caiff adolygiad y Prif Swyddog Cyfrifyddu o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio, a'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei llythyr rheoli a'i hadroddiadau eraill.

43. Craidd adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu oedd proses hunan-adolygu a gwblhawyd gan y Bwrdd Rheoli ym mis Ionawr 2013. Roedd hyn yn cynnwys y fframweithiau llywodraethu a chynllunio, y trefniadau arweinyddiaeth a rheoli busnes, ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd rheoli a'r ymgysylltiad ag ef. Cafodd yr adolygiad ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cyn y llofnodwyd y datganiadau ariannol.

44. Mae'r gwaith o reoli arian a chynllunio ymlaen llaw wedi parhau i gael eu cryfhau, gyda ffocws cyson ar werth am arian a chyrraedd y targed gwerth am arian. Mae'r amrywiannau yn ystod y flwyddyn i ragolygon wedi bod yn fach iawn o fis i fis. Rheolwyd y sefyllfa diwedd blwyddyn mewn modd cryfach a dechreuodd y gwaith yn gynt, gan olygu bod modd gwneud penderfyniadau busnes hyblyg a sicrhau canlyniadau gwell er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gyllideb a oedd ar gael. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd fframwaith dirprwyo newydd i gryfhau'r llinellau atebolrwydd ymhellach. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd polisïau pobl allweddol, gan gynnwys rhai yn ymwneud â thwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo. Rhaid paratoi achos gwerth am arian a'i gymeradwyo fel rhan o bob cynnig ynghylch swyddi newydd, a hynny cyn iddynt gael eu hysbysebu.

45. Roedd y Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2011-12 yn nodi bod lle i gryfhau llywodraethiant ymhellach yn y Comisiwn a nododd nifer o **feysydd yr oedd angen cymryd camau penodol yn eu cylch yn 2012-13.**

46. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth gryfhau ein trefniadau **llywodraethu gwybodaeth** ac rydym wedi mynd i'r afael yn rhagweithiol â'r holl argymhellion archwilio sy'n weddill. Mae aelodau o'r Bwrdd Rheoli wedi mabwysiadu rôl y Perchennog Asedau Gwybodaeth dros eu meysydd gwasanaeth unigol. Mae Cofrestrau Asedau Gwybodaeth wedi eu cyflwyno a'u hadolygu, ac rydym yn drafftio Rhestr Gadw ac yn adolygu Cynllun Marcio Diogelwch y Comisiwn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chynlluniau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi penodi Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth sydd wedi bod yn weithgar wrth godi ymwybyddiaeth am gyfrifoldeb dros reoli gwybodaeth ac, yn benodol, mae wedi trefnu cyfres o ymweliadau cynghorol gan Ddirprwy Gomisiynydd Gwybodaeth Cymru a'i staff.

47. Cafodd trefniadau **caffael a rheoli contractau'r Comisiwn** eu cryfhau gyda phenodiad Uwch-swyddog Caffael, datblygiad system gaffael ganolog ar gyfer contractau dros £25,000, prosesau ychwanegol i helpu i reoli risgiau annatod yn y broses gaffael ac rydym yn agos at gwblhau gwaith adnewyddu ar yr holl weithdrefnau. Rydym yn cyflwyno system rheoli contractau, a dechreuodd hyfforddiant ar hynny ddiwedd mis Mawrth. Yn ogystal, rydym wedi datblygu deunydd hyfforddi ac wedi cyflwyno'r gyfres gyntaf o sesiynau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o reolau a gweithdrefnau caffael ar draws y Comisiwn.

48. Ochr yn ochr â datblygiad gwaith y Cynulliad fel deddfwrfa, cafwyd **ymdrechion parhaus i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian**. O ran ein rhaglen Gwerth am Arian, rydym wedi rhoi'r gorchwyl i KPMG o'n cynorthwyo i bennu llinell sylfaen a dull ar gyfer mesur gwerth am arian yn well. Rydym yn datblygu cyfres o fesurau perfformiad i fonitro a dangos cynnydd tuag at gyflawni amcanion strategol y Comisiwn. Caiff adroddiadau monitro perfformiad corfforaethol eu cyhoeddi deirgwaith y flwyddyn.

49. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cwblhau **Cynllun Parhad Busnes** Comisiwn y Cynulliad, gan adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed eisoes o ran nodi a chofnodi sut gall gweithgareddau allweddol gael eu cynnal pe bai rhywbeth mawr yn tarfu ar ein gwaith. Rydym bellach wedi penodi Rheolwr Parhad Busnes fel adnodd penodol i wneud y gwaith hwn erbyn hydref 2013, gan gynnwys profi drwy ymarfer senario.

50. O ran **darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol** rydym wedi galluogi Comisiwn y Cynulliad i wneud y penderfyniad, ar sail dadansoddiad trylwyr o'r costau, manteision a risgiau'r opsiynau amrywiol, i dynnu'n ôl o gytundeb 'Merlin' ar gyfer gwasanaethau TGCh, ac i weithio tuag at wneud darpariaeth annibynnol ar gyfer gwasanaethau TGCh yn y dyfodol. Mae Prosiect Dyfodol TGCh bellach ar waith i sefydlu trefniadau newydd.

51. Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, wrth fwrw ymlaen â'n gwaith hyd at ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi, a buddsoddi:

- Strategaeth TGCh y dyfodol, 2014 a thu hwnt;
- Rhagoriaeth gwasanaethau a'u cyfuno i gefnogi Busnes y Cynulliad;
- Gwasanaethau dwyieithog gwell;
- Cynyddu'r graddau y mae pobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, yn ymwneud â gwaith y Cynulliad;
- Gwneud y gorau o'n Hystâd, yn enwedig y Senedd, a'i nodwedd o fod y prif leoliad i fywyd cyhoeddus Cymru.

52. Bydd yn rhaid i gynllunio tymor hwy ystyried ffactorau allanol fel casgliadau'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), canlyniad refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014, canlyniad Etholiad Cyffredinol San Steffan yn 2015, yr hinsawdd economaidd a phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

53. Yn ystod y flwyddyn, mynegwyd pryderon ynghylch nifer o faterion y bydd angen gweithredu'n benodol arnynt yn ystod 2013-14:

- datblygu a chryfhau ein trefniadau rheoli gwybodaeth o fewn y Comisiwn ymhellach;
- datblygu ar y gwelliannau a gafwyd o ganlyniad i sefydlu'r Bwrdd Buddsoddi, gwella sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi prosiect ymhellach, a datblygu'r Rhaglen Buddsoddi i reoli datblygiad cyfalaf yn strategol yn y Cynulliad;
- cwblhau a phrofi'r Cynllun Parhad Busnes; a
- chwblhau Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.

54. Caiff cynllun yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn ei baratoi a chaiff y cynnydd ei adrodd yn ôl i Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad.

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Dyddiad: 8 Gorffennaf 2013

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiad y Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad y Sefyllfa Ariannol, Datganiad y Llif Arian Parod, Datganiad ar y Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Comisiwn; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Comisiwn a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.
Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

– yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2013 a'i ofynion arian parod net, alldro adnoddau net a chostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

– wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

– mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

– mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

– nid yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;

– ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;

– ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu

– nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2013

Datganiad Cyflenwad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

a)Crynodeb o'r Alldro 2012–13

							2012-13 £'000	Alldro 2011-12 £'000
		Cyllideb			Alldro			
	Nodyn	Gwariant	Incwm	Cyfanswm	Gwariant	Incwm	Cyfanswm	Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion/(gwariant ychwanegol)	
Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	2	33,682	(205)	33,477	33,799	(165)	33,634	(157)	31,997
Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau	2	13,500		13,500	12,938	-	12,938	562	13,813
Gwariant a reolir yn flynyddol	2	500		500	573	-	573	(73)	412
		47,682	(205)	47,477	47,310	(165)	47,145	332	46,222

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a'r alldro yn nodyn 2.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 87 i 112 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

b) Gofyniad arian parod net 2012-13

	Nodyn	Cyllideb	Alldro	2012-13 £'000 Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion/(gwariant ychwanegol)	2011-12 £'000 Alldro
Gofyniad arian parod net	4	43,827	43,197	630	42,175

c) Crynodeb o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Daw'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o'r llog banc a gafwyd. Yn ystod 2012-13 a 2011-12, ni chafwyd unrhyw log ar y balansau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 87 i 112 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

	Nodyn	2012-13 £'000	2011-12 £'000
Costau gweinyddol			
Costau cyflogau'r Aelodau, deiliaid swyddi a staff	7a	20,585	20,485
Costau eraill yr Aelodau	7b	7,731	7,923
Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau	15	573	412
Costau gweinyddol eraill	8	17,809	17,522
Costau gweinyddol gros		46,698	46,342
Incwm gweithredu	6	(165)	(190)
Costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013		**46,533**	**46,152**

Gwariant cynhwysfawr arall

Colled/elw net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar	-	-
Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013	**46,533**	**46,152**

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 87 i 112 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Fel ar 31 Mawrth 2013

	Nodyn	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 wedi'i ailddatgan £'000
Asedau anghyfredol:			
Eiddo, offer a chyfarpar	9	66,065	68,784
Asedau annirweddol	10	1,421	1,390
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		67,486	70,174
Asedau cyfredol			
Stoc	11	16	10
Symiau i'w derbyn	12	1,507	1,350
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	13	630	924
Cyfanswm yr asedau cyfredol		2,153	2,284
Cyfanswm yr asedau		69,639	72,458
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau taladwy	14	(4,398)	(5,063)
Darpariaethau	15	(33)	(33)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(4,431)	(5,096)
Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net		65,208	67,362
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau taladwy eraill		-	-
Darpariaethau	15	(5,191)	(3,859)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		(5,191)	(3,859)
Asedau heb gynnwys rhwymedigaethau		**60,017**	**63,503**
Ecwiti'r trethdalwyr			
Y gronfa gyffredinol		57,194	59,315
Y gronfa bensiwn wrth gefn		(5,051)	(3,686)
Y gronfa ailbrisio wrth gefn		7,874	7,874
Cronfa wrth gefn ar gyfer asedau a gafwyd yn rhodd		-	-
		60,017	**63,503**

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Dyddiad: 8 Gorffennaf 2013

Mae'r nodiadau ar dudalennau 87 i 112 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Llif Arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

	Nodyn	2012-13	2011-12
Llif arian o weithgareddau gweithredu		**£'000**	**£'000**
Costau gweithredu net	3	(46,533)	(46,152)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:			
Dibrisiant, amorteiddiad a lleihad yn y gwerth	9 a 10	3,942	3,781
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc	11	(6)	14
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau i'w derbyn	12	(157)	5
Colled o werthu ased		-	22
Heb gynnwys y newidiadau mewn symiau i'w derbyn sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Costau Gweithredu		294	-
(Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau taladwy	14	(790)	944
Heb gynnwys y newidiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr		-	(825)
Defnyddio darpariaeth	15	(33)	(38)
Costau cyllid pensiynau	15	573	412
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		**(42,710)**	**(41,837)**
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	9	(748)	(842)
Prynu asedau annirweddol	10	(381)	(131)
Arian o werthu asedau		-	10
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		**(1,129)**	**(963)**
Llif arian o weithgareddau cyllido			
O Gronfa Gyfunol Cymru (Cyflenwad)		43,827	43,099
O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol)		642	625
Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		(924)	(99)
Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido		**43,545**	**43,625**
Gostyngiad net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	4	(294)	825
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	13	924	99
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	13	**630**	**924**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 87 i 112 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

	Nodyn	Y Gronfa Gyffredinol wedi'i hailddatgan	Y gronfa ailbrisio wrth gefn	Cronfa wrth gefn ar gyfer asedau a gafwyd yn rhodd	Cronfa bensiwn wrth gefn	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn wedi'i ailddatgan
		£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans ar 31 Mawrth 2012		62,244	7,874	11	(2,310)	67,819
Newidiadau mewn Polisi Cyfrifyddu –						
Asedau a gafwyd yn rhodd		11	-	(11)	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2012 wedi'i ailddatgan		62,255	7,874	-	(2,310)	67,819
Newid yn y Gronfa Bensiwn wrth Gefn						
Cost y Gronfa Bensiwn		-	-	-	(964)	(964)
Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2011-12		(46,152)	-	-	-	(46,152)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn		412	-	-	(412)	-
Cronfa Gyfunol Cymru						
–Cyflenwad		43,099	-	-	-	43,099
-Taliadau uniongyrchol	3	625	-	-	-	625
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru						
-Cyflenwad		(924)	-	-	-	(924)
Balans ar 31 Mawrth 2012		59,315	7,874	-	(3,686)	63,503
Newid yn y Gronfa Bensiwn wrth Gefn		-	-	-	-	-
Cost y Gronfa Bensiwn	15	-	-	-	(792)	(792)
Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig ar gyfer 2012-13		(46,533)	-	-	-	(46,533)
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	15	573	-	-	(573)	-
Cronfa Gyfunol Cymru		-	-	-	-	-
–Cyflenwad		43,827	-	-	-	43,827
-Taliadau uniongyrchol	3	642	-	-	-	642
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru						
-Cyflenwad	5	(630)	-	-	-	(630)
Balans ar 31 Mawrth 2013		57,194	7,874	-	(5,051)	60,017

Mae'r nodiadau ar dudalennau 87 i 112 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

01.Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2012-13 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

Cwblhawyd adolygiad o phob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn, a chanfuwyd nad effeithir ar Ddatganiadau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

01.1. Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried asedau sefydlog a ailbrisiwyd yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

01.2. Eiddo, offer a chyfarpar

Y lefel sylfaenol ar gyfer cyfalafu ased diriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill. Y trothwy TG yw pan fydd gwerth cyfunol asedau cysylltiedig a brynwyd yn fwy na £5,000. Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

01.3. Dibrisio asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

01.4. Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

01.5. Asedau annirweddol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog annirweddol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased (3 neu 5 mlynedd).

01.6. Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu ar sail eu gwerth cyfredol pan gânt eu rhoi ac fel arfer cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol a'r ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys EM o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

01.7. Dibrisiant

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu hadeiladu, dogfennau neu gofnodion hanesyddol na gwaith celf yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael. Isod, rhestrir oes arferol asedau:

Adeiladau:	50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig.
Offer sefydlog:	10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio.
Cyfarpar TGCh, clywedol a darlledu:	4-6 blynedd
Seilwaith TGCh:	10 mlynedd
Asedau annirweddol (meddalwedd):	3 neu 5 mlynedd
Cerbydau modur:	4 blynedd
Asedau a gafwyd yn rhodd:	I'w hasesu ar ôl eu cael

Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm dan sylw'n elw a wireddwyd ar y prisiad, a chaiff ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, os yw'n arwyddocaol.

01.8. Datganiad Gwariant Cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys costau nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn seiliedig

ar y gost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

01.9. Stoc

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

01.10. Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw. Trosir imprestau arian cyfred tramor i sterling ar sail y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar y pryd.

01.11. Pensiynau

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) - Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff sydd ar secondiad gyda'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ohono yn ôl ei sefyllfa ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (**www.civilservice-pensions.gov.uk**).

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (AMPS) - Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Cynulliad yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynllun buddion diffiniedig yw, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog deiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Cynulliad drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Bydd unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei dalu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Mae'r Cynllun yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar **wefan y Cynulliad.**

01.12. Cost Les Weithredol

Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

01.13. Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion Deddf Treth ar Werth 1994 a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, ac mae wedi'i eithrio rhag TAW yng nghyswllt darparu nwyddau a gwasanaethau'r Cynulliad. Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Cynulliad.

01.14. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol yn y banc a Citibank, y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nid oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

01.15. Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff.

01.16. Adroddiadau am segmentau

Rydym wedi adolygu ein hadroddiadau rheoli ac rydym yn fodlon nad oes gennym, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliadau ychwanegol i'w gwneud.

02.Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2012-13

	Alldro £'000	Dadansoddiad o'r gyllideb gymeradwy £'000	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb gymeradwy £'000	Alldro 2011-12 £'000
Gwariant Refeniw				
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig	14,736	15,456	720	13,954
Costau adeiladau a chyfleusterau	7,920	7,493	(427)	6,909
Costau TGCh	3,844	3,444	(400)	3,964
Costau eraill	1,328	1,240	(88)	951
Costau hyfforddi a datblygu	250	315	65	194
Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth	178	387	209	170
Costau teithio a chynhaliaeth staff	136	142	6	92
Costau Adnoddau Dynol eraill	211	113	(98)	1,035
Costau etholiad	-	-	-	442
Dibrisiant ac amorteiddiad	3,942	3,900	(42)	3,781
Gwariant refeniw gros	**32,545**	**32,490**	**(55)**	**31,492**
Incwm refeniw				
Gwerthiant – Siop y Cynulliad	(12)	(15)	(3)	(8)
Incwm rhentu adeiladau	(57)	(90)	(33)	(88)
Incwm amrywiol	(96)	(100)	(4)	(94)
Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso	(165)	(205)	(40)	(190)
GWARIANT REFENIW NET	**32,380**	**32,285**	**(95)**	**31,302**
GWARIANT CYFALAF – CREU ASEDAU SEFYDLOG	1,254	1,192	(62)	695
ALLDRO ADNODDAU	**33,634**	**33,477**	**(157)**	**31,997**
Cyflogau a Lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig	12,938	13,500	562	12,237
Costau etholiad	**-**	**-**	**-**	1,576
Cyfanswm costau Aelodau	**12,938**	**13,500**	**562**	**13,813**
Costau Cyllid Pensiwn Aelodau	573	500	(73)	412
Alldro Adnoddau Net	**47,145**	**47,477**	**332**	**46,222**

Dadansoddiad o alldro adnoddau net – nodiadau

Roedd yr alldro adnoddau net cyffredinol £0.332 miliwn (0.7%) yn is na chyfanswm y gyllideb a awdurdodwyd.

Roedd y tanwariant ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau a chostau perthnasol yn £0.562 miliwn (4.2%), o ganlyniad i lai o wariant na'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb ar gyflogau Aelodau a Staff Cymorth, sef tanwariant o £0.410 miliwn, a £0.152 miliwn yn llai ar dreuliau'r Aelodau.

Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan gost ychwanegol o £0.073 miliwn am Gostau Cyllid Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

O fewn cyllideb y Comisiwn, cafodd tanwariant ar gostau staff oherwydd swyddi gwag ac oherwydd na chafodd swyddi newydd eu llenwi mor gyflym ag y rhagwelwyd (£0.720 miliwn), ynghyd â llai o wariant na'r disgwyl ar godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth (£0.209 miliwn) a chostau llai o ran hyfforddi a datblygu (£0.065 miliwn), ei ailddyrannu i feysydd blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd gwariant TGCh yn uwch o ganlyniad i gytundebau cynnal a chadw blynyddol ychwanegol (£0.200 miliwn) a phrosiectau yng nghyswllt TGCh i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad gyda'u gwaith (£0.221 miliwn).

Cynyddodd costau adeiladau o ganlyniad i waith annisgwyl brys i atgyweirio adeiladau (£0.172 miliwn), yr angen i wella diogelwch ystâd y Cynulliad (£0.130 miliwn), rhagor o welliannau ym maes cynaliadwyedd (£0.065 miliwn) a chostau adnewyddu cyffredinol (£0.060 miliwn).

03. Cysoni'r alldro adnoddau â'r costau gweithredu net

	Nodyn	2012-13 £000	2011-12 £'000
Alldro Adnoddau Net	2	47,145	46,222
Gwariant cyfalaf	9 a 10	(1,254)	(695)
Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru		642	625
Costau gweithredu net		**46,533**	**46,152**

Mae'r taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, sef £641,915, (£625,080 yn 2011-12) yn deillio o gostau cyflogi'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiynydd Safonau ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyflogau hyn yn cael eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

04. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r (gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Gofyniad arian parod net	(43,197)	(42,175)
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) – y flwyddyn gyfredol	43,827	43,099
O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) – y flwyddyn flaenorol	-	-
Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol	(924)	(99)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod	**(294)**	**825**

05.Cysoni'r adnoddau net â'r gofyniad arian parod

	Nodyn	Cyllideb £'000	Alldro £'000	Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: arbedion/ (gwariant ychwanegol) £'000	Alldro 2011-12 £'000
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu	2	47,477	47,145	332	46,222
Addasiadau croniadol					
Eitemau nad ydynt yn arian parod	Gweler isod	(4,400)	(4,515)	115	(4,193)
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod		750	567	183	146
Gofyniad arian parod net		**43,827**	**43,197**	**630**	**42,175**

Eitemau nad ydynt yn arian parod	Nodyn	Cyllideb £'000	Alldro £'000	Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2012-13 £'000	Alldro 2011-12 £'000
Dibrisiant ac amorteiddiad	9 a 10	(3,900)	(3,942)	42	(3,781)
Cost Cyllid Pensiynau IAS 19 a newidiadau eraill mewn darpariaeth		(500)	(573)	73	(412)
		(4,400)	(4,515)	115	(4,193)

06.Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

	Cyllideb 2012-13 £'000	Alldro 2012-13 £'000	Alldro 2011-12 £'000
Incwm gweithredu y gellir ei gadw	205	165	190
Incwm gweithredu na ellir ei gadw (llog banc)	-	-	-
Is-gyfanswm	205	165	190
Swm a gadwyd	205	165	190
Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	-	-	-

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2012-13 (£dim yn 2011-12).

07.A - Nifer yr Aelodau a staff a chostau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

	Staff	Aelodau a deiliaid swyddi	Cyfanswm 2012-13	Cyfanswm 2011-12
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau				
Staff, Aelodau a deiliaid swyddi	11,463	4,362	15,825	15,886
Staff ar secondiad	139		139	150
Costau nawdd cymdeithasol				
Staff, Aelodau a deiliaid swyddi	935	465	1,400	1,343
Costau pensiwn eraill				
Staff, Aelodau a deiliaid swyddi	2,199	1,022	3,221	3,090
Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff	-	-	-	**20,469**
Costau etholiad	-	-	-	**16**
Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff a chostau etholiad	**14,736**	**5,849**	**20,585**	**20,485**

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel y noda'r Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng Nghyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Dyma nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr):

	2012-13	2011-12
Staff parhaol	337.8	327.5
Staff ar secondiad	1.0	4.2
Staff dros dro / achlysurol	19.5	4.0
Penodiadau am dymor penodol	-	1.3
Cyfanswm	358.3	337.0

Ar 31 Mawrth 2013, roedd 60 Aelod Cynulliad mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 11 Deiliad Swydd (ar wahân i'r Gweinidogion), un Prif Weinidog, naw o Weinidogion Cymru, dau Ddirprwy Weinidog ac un Cwnsler Cyffredinol.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod etholedig (gweler y Sylwadau Rheoli i gael rhagor o fanylion). Rhoddir tâl o £12,420 y flwyddyn i bob Comisiynydd ers 1 Ebrill 2011 (£12,168 y flwyddyn o 1 Ebrill 2010). Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn.

Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd mwyaf diweddar o'r cynllun yn ôl ei sefyllfa ar 31 Mawrth 2007, a gwneir hyn bob pedair blynedd. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (**www.civilservice-pensions.gov.uk**).

Yn ystod 2012-13, roedd £2.185 miliwn o gyfraniadau cyflogwr (£2.085 miliwn yn 2011-12) yn daladwy i'r PCSPS ar sail un o bedair cyfradd yn yr amrediad rhwng 16.7% a 24.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (sy'n wahanol i fandiau cyflog 2008-09). Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Gall staff agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £17,489 (£22,000 yn 2011-12) i ddarparwyr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn dibynnu ar oedran yr aelod o staff ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb i gyfraniadau'r cyflogai hyd at 3% o dâl pensiynadwy. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau'r cyflogai o £882 (£1,100 yn 2011-12), neu 0.8% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost buddion ar ffurf cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch. Pan baratowyd y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £795 (£1,800 yn 2011-12) yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ni wnaeth neb ymddeol oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw rwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Mae cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn darparu buddion yn seiliedig ar dâl pensiynadwy terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Cynulliad a phenodir Rheolwr Buddsoddi i'w rheoli. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2008 ac fe'i diweddarwyd hyd at 1 Ebrill 2011 gan actiwari annibynnol cymwysedig. Cynllun â chronfa yw hwn.

Dyma'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	(29,011)	(23,984)
Gwerth teg asedau'r cynllun	23,960	20,298
Rhwymedigaeth net	(5,051)	(3,686)
Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol		
Rhwymedigaethau	(5,051)	(3,686)
Asedau	-	-
Rhwymedigaeth net (Nodyn 15)	(5,051)	(3,686)

Dadansoddiad o'r swm a drosglwyddwyd i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	2012-13 £'000	2011-12 £'000
Cost gyfredol y gwasanaeth	1,475	1,391
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	1,212	1,236
Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun	(1,149)	(1,285)
	1,538	1,342
Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:		
Costau pensiwn eraill	965	930
Costau cyllid pensiynau	573	412
Costau gwasanaeth a roddwyd	-	-
	1,538	1,342

Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)

	2012-13 £'000	**2011-12 £'000**
Gwir enillion heb gynnwys enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun	1,524	(497)
Gwir enillion/(golledion)	1,125	(436)
Newidiadau mewn tybiaethau	(3,441)	(31)

(Colledion)/enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr	(792)	(964)

Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2013 £'000	**31 Mawrth 2012 £'000**
Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill	23,984	21,095
Cost bresennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau)	1,475	1,391
Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn)	445	728
Costau gwasanaeth a roddwyd	-	-
Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn	(421)	(933)
Llog ar rwymedigaeth pensiwn	1,212	1,236
Enillion actiwaraidd	2,316	467
Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth	29,011	23,984

Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2013 £'000	**31 Mawrth 2012 £'000**
Gwerth yr asedau ar 1 Ebrill	20,298	18,785
Enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun	1,149	1,285
Enillion actiwaraidd heb gynnwys yr enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun	1,524	(497)
Cyfraniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	965	930
Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn)	445	728
Buddion a dalwyd a threuliau	(421)	(933)
Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth	23,960	20,298

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £1,011,971 at Gynllun Pensiwn yr Aelodau yn ystod 2013-14.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

	2012-13	2011-12
Ecwitïau	6.2%	6.2%
Bondiau	2.7%	2.7%
Bondiau eraill	4.0%	4.0%
Arian parod	2.7%	2.7%

Nid yw asedau'r cynllun yn cynnwys unrhyw eiddo yn uniongyrchol nac yn uniongyrchol. Mae asedau'r cynllun yn cynnwys, yn anuniongyrchol drwy fuddsoddi mewn cronfeydd cyfunol, giltiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a chanddynt werth teg o £2,214,659 (£1,848,834 yn 2011-12).

Mae'r gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos ecwitïau 3.5% y flwyddyn yn uwch na'r elw ar giltiau ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Y gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos bondiau yw'r elw sy'n gysylltiedig ag ad-dalu'r bondiau y mae'r cynllun yn eu dal (yn anuniongyrchol) ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad hwn. Defnyddir yr amcangyfrif gorau o'r enillion arian parod hirdymor i nodi'r gyfradd enillion a ddisgwylir yn achos arian parod, gan gymryd y bydd cyfraddau llog yn cyd-fynd â'r enillion sydd ar gael o giltiau.

Y gwir enillion o asedau'r cynllun yn 2012-13 oedd £2.670 miliwn (£0.778 miliwn yn 2011-12).

Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2012
Cyfradd y gostyngiad	4.3%	4.9%
Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol	-0.4%	0.2%
Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol	1.8%	2.3%
Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar ecwitïau	6.2%	6.2%
Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar fondiau Llywodraeth y DU	2.7%	2.7%
Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar fondiau	4.0%	4.0%
Cyfradd yr enillion disgwyliedig ar arian parod	2.7%	2.7%
Hyd oes ddisgwyliedig ar ôl 65 oed (blynyddoedd)		
Dynion	25.0	24.9
Menywod	26.2	26.1

Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol:

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2011 £'000	31 Mawrth 2010 £'000	31 Mawrth 2009 £'000
Rhwymedigaeth buddion diffiniedig	29,011	23,984	21,095	21,999	12,388
Asedau'r cynllun	23,960	20,298	18,785	16,126	10,421
(Diffyg)/gwarged	(5,051)	(3,686)	(2,310)	(5,873)	(1,967)
Addasiadau ar sail profiad i rwymedigaethau'r cynllun	1,125	(436)	617	251	100
Addasiadau ar sail profiad i asedau'r cynllun	1,524	(497)	618	3,799	(2,922)

Mae rhagor o wybodaeth am **Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad** ar gael yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

07.B - Costau eraill yr Aelodau

Mae Costau Eraill yr Aelodau, sef £7.731 miliwn (£7.923 miliwn yn 2011-12), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

	2012-13 £'000	2011-12 £'000
Lwfansau Costau Swyddfa	733	777
Lwfansau Costau Ychwanegol	230	198
Lwfansau Costau Staff yr Aelodau	6,503	6,690
Costau Teithio	265	258
Cyfanswm costau eraill yr Aelodau	**7,731**	**7,923**

07.C - Adrodd ar y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol – pecynnau ymadael

Talodd y Comisiwn gost taliad diswyddo arbennig yn ystod o flwyddyn yn unol â'r telerau a bennwyd gan y Prif Weithredwr drwy ymgynghori â Chomisiynwyr y Cynulliad. Roedd y swm a dalwyd i'r unigolyn yn y band £50k - £100k. Roedd y taliad yn destun cytundeb cyfaddawdu.

Yn y flwyddyn flaenorol, talodd y Comisiwn £928k o gostau diswyddo gwirfoddol a chostau ymadael eraill yn unol â Chynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, a hynny yng nghyswllt 22 pecyn ymadael. Nid yw'r symiau isod yn cynnwys cyfraniadau yswiriant cenedlaethol gan y cyflogwr sy'n daladwy ar daliadau iawndal dros £30k.

	Band cost y pecyn ymadael	Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2012-13	Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2011-12
1	**<£10,000**	-	-
2	**£10,000 - £25,000**	-	8
3	**£25,000 - £50,000**	-	9
4	**£50,000 - £100,000**	1	4
5	**£100,000 - £150,000**	-	-
6	**£150,000 - £200,000**	-	1
8	**Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl math**	1	22

07.D - Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Ar 9 Tachwedd 2010, penodwyd Gerard Elias QC yn Gomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am Gerard Elias QC a'i waith ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

Yn ystod 2012-13, cafwyd costau o £24,769 (£19,549 yn 2011-12) mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

– Cafodd 288 awr â chost o £21,179 (236.75 awr â chost o £18,152 yn 2011-12) yng nghyswllt cost y Comisiynydd ar gyfer 2012-13 eu rhoi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

– 120 awr â chost o £3,490 (108.75 awr â chost o £2,314 yn 2011-12) o ran costau staff i gynorthwyo'r Comisiynydd.

08.Costau Gweinyddol Eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £17.809 miliwn (£17.522 miliwn yn 2011-12) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

	2012-13 £'000	2011-12 £'000
Costau adeiladau a chyfleusterau		
Lesau - Adeiladau	2,812	2,204
Cynnal a chadw	1,971	1,716
Ardrethi	1,356	1,285
Diogelwch	603	581
Cyfleustodau	518	506
Arlwyo	305	323
Lesau - ffotogopiwyr	161	127
Parcio	115	99
Dodrefn a gosodiadau	79	68
Costau TGCh		
Gwasanaethau TGCh ar gontract allanol	2,191	2,804
Darlledu	475	433
Ffôn	385	52
Costau trwyddedu a chynnal a chadw	360	289
Prosiectau TG	221	147
Gwefan	122	176
Refeniw TGCh a phrynu defnyddiau traul	90	63
Costau eraill		
Treuliau gweinyddol eraill	343	61
Cyfieithu	204	116
Argraffu, deunydd ysgrifennu a thâl postio	203	181
Cyngor Arbenigol ac Yswiriant	195	109
Cyhoeddiadau	110	174
Cyfrifyddu a Gwasanaeth Ariannol	92	126
Archwilio	87	82
Cynghorwyr Pwyllgorau	57	71
Lletygarwch	37	31
Costau hyfforddi a datblygu	250	194
Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth	178	170
Costau teithio a chynhaliaeth staff	136	92
Costau Adnoddau Dynol eraill	211	1,035
Costau etholiad	-	426
Dibrisiant, amorteiddiad a lleihad yn y gwerth	3,942	3,781
	17,809	**17,522**

Cytunwyd mai £60,250 (£59,450 yn 2011-12) fyddai'r gost o archwilio'r datganiadau hyn yn allanol. Ni chafwyd costau am waith archwilio anstatudol ychwanegol yn 2012-13 (dim yn 2011-12).

09. Eiddo, offer a chyfarpar

	Tir ac adeiladau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a gosodiadau*	Cerbydau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	2012-13 £'000 Cyfanswm
Cost neu brisiant						
Ar 1 Ebrill 2012	71,345	12,402	1,228	80	196	85,251
Ychwanegwyd	-	373	136	-	364	873
Ailddosbarthwyd	-	77	119	-	(196)	-
Gwerthwyd	-	-	-	-	-	-
Ailbrisiwyd	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2013	71,345	12,852	1,483	80	364	86,124
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2012	(9,650)	(6,028)	(729)	(60)	-	(16,467)
Costau yn ystod y flwyddyn	(1,522)	(1,853)	(93)	(20)	-	(3,488)
Lleihad yn y gwerth		(27)	(77)			(104)
Gwerthwyd	-	-	-	-	-	-
Ailbrisiwyd	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2013	(11,172)	(7,908)	(899)	(80)		(20,059)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013	**60,173**	**4,944**	**584**	**0**	**364**	**66,065**
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012	**61,695**	**6,374**	**499**	**20**	**196**	**68,784**

* Mae dodrefn a gosodiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

DS Gibbon FRICS o GVA Grimley International Property Advisers a ailbrisiodd y tir a'r adeiladau hyn, yn ôl eu gwerth ar 31 Mawrth 2011. Ailbrisiwyd y Senedd a'r Pierhead yn ôl y gost o'u hailgodi ar ôl dibrisiant.

	Tir ac adeiladau	Technoleg gwybodaeth	Dodrefn a gosodiadau*	Cerbydau	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	2011-12 £'000 Cyfanswm
Cost neu brisiant						
Ar 1 Ebrill 2011	71,345	12,126	1,170	80	705	85,426
Ychwanegiadau	-	310	58	-	196	564
Ailddosbarthwyd	-	416	-	-	(705)	(289)
Gwerthwyd	-	(450)	-	-	-	(450)
Ailbrisiwyd	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2012	71,345	12,402	1,228	80	196	85,251
Dibrisiant						
Ar 1 Ebrill 2011	(8,128)	(4,619)	(623)	(40)	-	(13,410)
Costau yn ystod y flwyddyn	(1,522)	(1,827)	(106)	(20)	-	(3,475)
Gwerthwyd	-	418	-	-	-	418
Ailbrisiwyd	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2012	(9,650)	(6,028)	(729)	(60)	-	(16,467)
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2012	**61,695**	**6,374**	**499**	**20**	**196**	**68,784**
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2011	**63,217**	**7,507**	**547**	**40**	**705**	**72,016**

10.Asedau annirweddol

Mae'r asedau annirweddol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

	Meddalwedd	2013 Cyfanswm £'000
Cost neu brisiant		
Ar 1 Ebrill 2012	1,908	1,908
Ychwanegwyd	381	381
Ailddosbarthwyd	-	-
Ar 31 Mawrth 2013	2,289	2,289
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2012	**(518)**	**(518)**
Costau yn ystod y flwyddyn	(350)	(350)
Ar 31 Mawrth 2013	**(868)**	**(868)**
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013	**1,421**	**1,421**
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012	1,390	1,390

	Meddalwedd	2012 Cyfanswm £'000
Cost neu brisiant		
Ar 1 Ebrill 2011	1,488	1,488
Ychwanegwyd	131	131
Ailddosbarthwyd	289	289
Gwerthwyd	**-**	**-**
Ailbrisiwyd	**-**	**-**
Ar 31 Mawrth 2012	1,908	1,908
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2010	**(212)**	**(212)**
Costau yn ystod y flwyddyn	(306)	(306)
Ar 31 Mawrth 2011	**(518)**	**(518)**
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2012	**1,390**	**1,390**
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2011	1,276	1,276

11.Stoc

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Stoc Siop y Comisiwn	16	10

12.Symiau masnachol i'w derbyn; asedau ariannol ac asedau eraill

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn:		
Symiau masnachol i'w derbyn	6	3
Symiau eraill i'w derbyn	4	8
Rhagdaliadau	1,114	905
TAW y gellir ei hadennill	383	434
Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru yng nghyswllt taliadau uniongyrchol	-	-
	1,507	**1,350**

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn.

13.Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Balans ar 1 Ebrill	924	99
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	(294)	825
Balans ar 31 Mawrth	630	924
Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan:		
Citibank	426	833
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	204	91
Balans ar 31 Mawrth	**630**	**924**

14.Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn		
TAW - net gyda balans Nodyn 12	9	3
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	582	563
Symiau masnachol taladwy	4	5
Symiau taladwy eraill	-	1
Croniadau	3,173	3,567
Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	630	924
	4,398	**5,063**
Symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn		
Symiau taladwy eraill	-	-
	4,398	**5,063**

15.Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

O dan Safon Archwilio Ryngwladol 19, caiff rhwymedigaeth o £5.051 miliwn ei chydnabod ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Nodyn 7.

	Cynllun pensiwn yr Aelodau £'000	Darpariaeth ar gyfer tâl digolledu i staff £'000	2012-13 Cyfanswm £'000	2011-12 Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill	3,686	206	3,892	2,554
Cynnydd yn ystod y flwyddyn	*1,365	-	1,365	1,376
Symiau a ddefnyddiwyd neu a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn	-	(33)	(33)	(38)
Balans ar 31 Mawrth	**5,051**	**173**	**5,224**	**3,892**

*Mae hyn yn cynnwys y gost cyllid pensiwn o £0.573 miliwn (£0.412 miliwn yn 2011-12) a'r golled actiwaraidd net o £0.792 miliwn (£0.926 miliwn – 2011-12). Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 7a.

O gyfanswm y ddarpariaeth o £5.224 miliwn, disgwylir i £0.033 miliwn yng nghyswllt tâl digolledu gael ei dalu cyn pen blwyddyn.

16.Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2013 (Nid oedd dim ar 31 Mawrth 2012).

17.Ymrwymiadau o dan lesau

(a)Lesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan lesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl y cyfnod ariannol hwn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r lesau i ben.

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Mae'r rhwymedigaethau o dan lesau gweithredol yn cynnwys:		
Tir ac adeiladau:	-	-
Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	-	65
Yn dod i ben wedi hynny	41,400	43,700
	41,400	**43,765**
Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr:		
Yn dod i ben cyn pen blwyddyn	-	5
Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	198	158
	198	**163**

Mae'r Comisiwn yn cael incwm mewn cysylltiad â lesau gweithredol adeiladau a thir. Mae'r incwm hwn wedi'i ddatgelu fel Incwm Rhentu Adeiladau yn Nodyn 2.

(b)Lesau ariannol

Nid oes unrhyw rwymedigaethau o dan lesau ariannol.

18.Ymrwymiadau ariannol eraill

Yn hanesyddol, mae dau o gontractau'r Comisiwn wedi bod yn gontractau na ellir eu diddymu. Contractau yw'r rhain a fyddai'n peri bod angen talu ffi pe baent yn cael eu canslo mewn modd nad yw'n cyd-fynd â'u telerau. Felly, ystyrir bod gan y Comisiwn ymrwymiad ariannol mewn perthynas â'r math hwn o gontract. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd hysbysiad ffurfiol ynghylch dod ag un o'r contractau i ben, sef y contract cymorth TGCh.

	2012-13 £'000	2011-12 £'000
Rhwymedigaethau o dan gontractau na ellir eu diddymu:		
Yn dod i ben cyn pen blwyddyn	-	-
Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	2,974	5,743
Yn dod i ben wedi hynny	-	-
	2,974	**5,743**

Mae contractau eraill y Comisiwn yn cyfeirio at derfynu contract yn gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

19.Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

20.Rhwymedigaethau amodol

Mae gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad hawliau cytundebol i swm sy'n cyfateb i 10% o'u cyflog blynyddol gros gael ei gyfrannu tuag at bensiwn, ond nid ydynt i gyd wedi arfer yr hawl hwn. Mae'r rhwymedigaeth yn parhau am chwe blynedd wedi i'w cyflogaeth ddod i ben, ac fe'i hamcangyfrifir fel a ganlyn:

	Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2013 £'000	Swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2012 £'000	Swm a dalwyd 2012-13 £'000	Sylwadau
Cyfraniadau pensiwn ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau sydd:				
Yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ond nad ydynt yn cyfrannu at gynllun pensiwn	29	35	-	Tebygol
Wedi gadael swydd heb ymuno â chynllun pensiwn erioed	61	63	-	Annhebygol iawn

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau amodol mesuradwy nac anfesuradwy drwy roi gwarant, indemniad neu lythyr cysuro.

21.Colledion a thaliadau arbennig

Dyma nifer a gwerth y colledion a'r taliadau arbennig a wnaed yn ystod 2012-13:

(a)Datganiad Colledion	**2012-13**		**2011-12**	
	Nifer yr achosion	**Gwerth £'000**	***Nifer yr achosion***	**Gwerth £'000**
Cyfanswm	*20*	4	*19*	18
Taliadau ofer a cholledion mewn effaith	*18*	3	*16*	2
Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt	*1*	1	*1*	-
Colledion tâl, lwfansau a buddion blwydd-daliadau	-	-	*1*	1
Colledion cyflenwadau y gellir eu nodi yn y cyfrifon	*1*	-	*1*	15
(b)Taliadau arbennig		**2012-13**		**2011-12**
	Nifer yr achosion	**Gwerth £'000**	***Nifer yr achosion***	**Gwerth £'000**
Cyfanswm	*1*	103	*18*	481
Iawndal	*1*	103	*7*	219
Ex-gratia	-	-	*3*	1
Tâl diswyddo arbennig	-	-	*8*	261*

*Mae'r taliadau hyn yn rhan o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol a gwblhawyd yn 2011-12.

22. Teithio a Chynhaliaeth gan Gyfarwyddwyr

Dyma'r hawliadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, ac ar eu rhan, am dreuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau busnes eraill yn ystod y ddwy flynedd diwethaf:

	Claire Clancy *Y Prif Weithredwr a'r Clerc*		Adrian Crompton *Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad*		Dave Tosh *Cyfarwyddwr TGCh o 16 Ebrill 2012*	Elisabeth Jones *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol o 8 Hydref 2012*	Steven O'Donoghue *Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a'r Cyfarwyddwr Cyllid o 1 Ebrill 2012*	Dianne Bevan *Y Prif Swyddog Gweithredu tan fis Awst 2012*		Keith Bush *Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol tan 31 Hydref 2012*	
	2012-13	2011-12	2012-2013	2011-12	2012-2013	2012-2013	2012-2013	2012-2013	2011-12	2012-2013	2011-12
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Milltiroedd mewn car	-	-	184	-	135	38	-	-	-	-	-
Tacsi/llogi car/costau cysylltiedig	-	22	13	-	120	139	45	-	10	-	-
Teithiau awyr/costau cysylltiedig	282	335	1,789	-	412	236	-	-	296	249	-
Trafnidiaeth gyhoeddus	193	7	612	532	-	358	647	463	381	162	-
Llety	120	255	180	-	481	268	-	-	376	-	-
Cynhaliaeth / treuliau	24	180	131	49	159	36	-	-	21	-	-
Cyfanswm	619	799	2,909	581	1,307	1,075	692	463	1,084	411	-

23.Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â nifer o drafodion â Llywodraeth Cymru, adrannau llywodraeth, a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau EM. Yn ogystal â hyn, ceir trafodion rheolaidd rhyngddo a Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad—gweler nodyn 7b. Yn ôl Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

At ddibenion tryloywder, cofnodir y mân daliadau a ganlyn:

– Gwnaeth Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad daliadau o £1,046.99 (£60.00 yn 2011-12) i Brifysgol Glyndŵr i logi lleoliad ac am gostau perthnasol. Mae Sandy Mewies AC yn Gymrawd Anrhydeddus i Brifysgol Glyndŵr.

– Gwnaed taliadau o £7,080.00 (£7,080.00 yn 2011-12) i Gymdeithas Hansard ar gyfer Hyfforddi a Datblygu ac i dalu ffi i danysgrifio'n gefnogwr corfforaethol. Mae Dianne Bevan yn Gyfarwyddwr/Ymddiriedolwr i'r Gymdeithas hon.

– Gwnaed taliadau o £29,532.13 (£5,466.94 yn 2011-12) i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Yn bennaf, roedd hyn yn ymwneud â hyfforddiant a chyngor arbenigol ar gyfer Pwyllgor Cyllid y Cynulliad, ynghyd â thanysgrifiadau corfforaethol a hyfforddiant i staff. Steven O'Donoghue oedd llywydd CIPFA Cymru tan 15 Mawrth 2013.

Y Comisiwn sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau'r Cynulliad a'r holl ddeiliaid swyddi, ynghyd â pholisïau cyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Caiff y Comisiynwyr, fel Aelodau'r Cynulliad, gyflogi aelodau o'u teuluoedd i weithio fel staff cymorth; nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran cyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau'r Cynulliad ar gael yn **www.cynulliadcymru.org** a **www.assemblywales.org**.